

# Y Fargen Werdd a Rhwymedigaeth y Cwmniau Ynni

Dogfen Ymgynghori

Department of Energy and Climate Change  
3 Whitehall Place  
London SW1A 2AW  
Ffôn: 0300 068 4000  
Gwefan: [www.decc.gov.uk](http://www.decc.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2011

Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol yn perthyn i'r Goron. Caniateir i'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) gael ei aildddefnyddio yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei aildddefnyddio'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y Goron dros y deunydd a rhaid pennu teitl y cyhoeddiad.

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: URN 11D/886 – Dogfen Ymgynghori y Fargen Werdd a Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni

Cyhoeddwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

# Tabl Cynnwys

<b>Gwybodaeth gyffredinol.....</b>	<b>4</b>
<b>Acronymau a byrfoddau .....</b>	<b>8</b>
<b>Rhagair.....</b>	<b>10</b>
<b>Crynodeb Gweithredol.....</b>	<b>21</b>
<b>Catalog o Gwestiynau.....</b>	<b>36</b>
<b>Pennod 1: Asesu.....</b>	<b>44</b>
<b>Pennod 2: Mesurau, cynhyrchion a systemau.....</b>	<b>61</b>
<b>Pennod 3: Darparwr y Fargen Werdd a'r Cynllun .....</b>	<b>86</b>
<b>Pennod 4: Y Rheol Aur .....</b>	<b>105</b>
<b>Pennod 5: Darparu cymorth teg a mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy'r Fargen Werdd a'r ECO.....</b>	<b>118</b>
<b>Pennod 6: Cydsynio, Datgelu a Chydnabod .....</b>	<b>135</b>
<b>Pennod 7: Gosod.....</b>	<b>154</b>
<b>Pennod 8: Casglu taliadau.....</b>	<b>163</b>
<b>Pennod 9: Cyflawni'r ECO a'r Fargen Werdd.....</b>	<b>176</b>
<b>Pennod 10: Amddiffyn Defnyddwyr .....</b>	<b>187</b>
<b>Pennod 11: Gosod yr ECO a'r mesuriadau targed .....</b>	<b>197</b>
<b>Pennod 12: Monitro a Chlориannu'r Fargen Werdd, a Gweinyddu'r ECO .....</b>	<b>211</b>
<b>Geirfa.....</b>	<b>220</b>
<b>Atodiad A.....</b>	<b>227</b>
<b>Atodiad B.....</b>	<b>228</b>
<b>Atodiad C.....</b>	<b>229</b>
<b>Atodiad D.....</b>	<b>230</b>
<b>Atodiad E.....</b>	<b>231</b>
<b>Atodiad F.....</b>	<b>232</b>

# Gwybodaeth gyffredinol

## Diben a chyd-destun y ddogfen hon

Gwnaeth Deddf Ynni 2011<sup>1</sup> ddarpariaethau ynglŷn â datblygu Bargaen Werdd a Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) newydd yn lle'r Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT) a'r Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned (CESP), sydd ill dau yn dod i ben yn 2012. Mae datblygu'r Fargen Werdd a'r ECO yn adlewyrchu'r angen i newid cyflymder ar fyrder yn ein hymagwedd at effeithlonrwydd ynni yn yr adeiladau domestig ac annomestig sydd eisoes yn bod. Bydd hyn yn holl-bwysig o ran cyrraedd ein targedau ar allyriadau carbon a thlodi tanwydd.

Tri diben yn bennaf sydd i'r ddogfen hon:

- esbonio cyd-destun datblygu'r Fargen Werdd a'r ECO;
- nodi'n cynigion ar gyfer y Fargen Werdd a'r ECO a;
- thynnu sylw at y materion allweddol, at ddibenion ymgynghori.

Ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon rydyn ni wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau eraill er mwyn cynnig y ddealltwriaeth lawnaf posibl o'r dadansoddiad hyd yn hyn i'r ymatebwyr. Dyma'r dogfennau dan sylw:

- asesiad effaith drafft manwl
- allbynnau nifer o astudiaethau ar ddealltwriaeth cwsmeriaid a gomisiynwyd gan DECC ac sy'n dangos y galw tebyg am y Fargen Werdd a'r cyfleoedd i greu ymateb uwch – sef canlyniadau sydd eisoes wedi'u defnyddio i fireinio'r cynigion polisi yn y ddogfen hon ac wedi'u cynnwys yn ein model economaidd (a gafodd ei ddefnyddio at yr asesiad effaith).
- offerynnau statudol (OS) drafft a drafft o'r Cod Ymarfer i aseswyr, gosodwyr a darparwyr, ynghyd â diwygiadau drafft i drwyddedau cwmnïau ynni a chytundebau diwydiannol a drafft o Gytundeb Trefniadau'r Fargen Werdd. Drafftiau gwaith yw'r rhain, o reidrwydd, wrth inni barhau i ymgynghori ar y polisi ond rydyn ni'n eu rhannu nhw nawr i helpu i ddangos sut y gallai'r cynigion cyfredol gael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth. Bydd angen eu diwygio yn unol â deilliannau'r ymgynghori cyn i'r manylion terfynol gael eu pennu ac (yn achos yr OS a'r Cod Ymarfer) cyn eu gosod gerbron y Senedd. Mae Deddf Ynni 2011 (a'r ddeddfwriaeth gynharach sy'n berthnasol) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol inni ymgynghori ar ein cynigion ynglŷn â'r ECO ac ar ddiwygiadau arfaethedig yn y drwydded a'r cytundeb diwydiannol, a'r ymarfer ymgynghori hwn sy'n ateb y gofyn hwnnw.

---

<sup>1</sup> Mae copi o Ddeddf Ynni 2011 ar gael yma

[http://www.decc.gov.uk/en/contents/cms/legislation/energy\\_act2011/energy\\_act2011.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/contents/cms/legislation/energy_act2011/energy_act2011.aspx)

Hoffem glywed gan amrediad eang o randdeiliaid gan gynnwys, yn benodol, sefydliadau sydd â diddordeb mewn gweithredu yn y fframwaith arfaethedig, ac aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol a allai fod yn ystyried buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni. Bydd allbwn yr ymgynghoriad yn helpu i fwydo'r ddeddfwriaeth eilaidd ar y Fargen Werdd ac ar yr ECO.

Byddwn yn cymryd rhan mewn nifer o ddiwyddiadau i randdeiliaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ystod y cyfnod ymgynghori. Byddwn hefyd yn cynnal gweithdai penodol ar gyfer y sector. I gael rhagor o wybodaeth am ddyddiadau a lleoliadau'r diwyddiadau hyn, ewch i'n gwefan. I gael y newyddion diweddaraf am gynnydd y Fargen Werdd a'r ECO, gallwch ymuno â'n rhestr bostio i'r rhanddeiliaid yma:

[http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/tackling/green\\_deal/green\\_deal.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/tackling/green_deal/green_deal.aspx).

**Wedi'i chyhoeddi:** 23 Tachwedd 2011

**Ymatebwch erbyn:** 18 Ionawr 2012

### **Ymholiadau Polisi i**

Green Deal and ECO Consultation

Green Deal Legislation and Finance

Department of Energy & Climate Change,

1st Floor Area D,

3 Whitehall Place,

London SW1A 2AW

Ffôn: 0300 068 6324

E-bost: [greendealandecoconsultation@decc.gsi.gov.uk](mailto:greendealandecoconsultation@decc.gsi.gov.uk)

**Tiriogaeth** Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru,, Lloegr a'r Alban.

### **Sut i ymateb**

Bydd eich ymateb yn fwyaf buddiol o'i lunio ar ffurf ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn, er bod croeso i sylwadau pellach hefyd. Os oes modd, byddem yn ddiolchgar am gael tystiolaeth i ategu'ch barn a'ch cynigion. Wrth ichi ymateb, dywedwch ai fel unigolion rydych chi'n ymateb ynteu yn cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, eglurwch pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, drwy ddewis y grŵp buddiannau priodol ar y ffurflen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad ac, os yw'n gymwys, sut cafodd safbwyntiau'r aelodau eu cydgasglu.

*Byddai'n well gennym pe baech yn ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein yn y fan yma:*

[https://econsultation.decc.gov.uk/decc-policy/green\\_deal\\_eco/](https://econsultation.decc.gov.uk/decc-policy/green_deal_eco/)

Os na allwch ddefnyddio'r cyfrwng hwn, mae copi o'r ffurflen i ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn electronig yn [www.decc.gov.uk](http://www.decc.gov.uk).

Gall ymatebion electronig gael eu hanfon drwy'r e-bost at: [greendealandecoconsultation@decc.gsi.gov.uk](mailto:greendealandecoconsultation@decc.gsi.gov.uk)

Gall ymatebion mewn copi caled gael eu hanfon at y cyfeiriad uchod.

### **Rhagor o gopiâu**

Cewch wneud copiâu o'r ddogfen hon heb ofyn caniatâd a chewch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded honno, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu ysgrifennwch at yr

Information Policy Team, The National Archives, Kew, London

TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Mae copiâu electronig o'r ddogfen ymgynghori, yr offerynnau statudol drafft a'r asesiad effaith i'w cael ar wefan y DECC yn:

<http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/>

Mae fersiynau eraill o'r ddogfen mewn Braille, print bras neu gasét sain ar gael drwy ofyn amdany'n nhw. Cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion uchod i ofyn am fersiynau amgen.

### **Cyfrinachedd a diogelu data:**

Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth ar weld gwybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych yn dymuno i wybodaeth rydych chi'n ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, eglurwch hynny wrth ichi anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai o gymorth pe baech yn esbonio pam rydych chi o'r farn bod yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn cymryd eich esboniad i ystyriaeth yn llawn, ond allwn ni ddim rhoi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd nacâd cyfrinachedd a gynhyrchir gal eich system TG yn cael ei drin fal cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn crynhoi pob ymateb a'u gosod ar ein gwefan yn [www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/). Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau'r sefydliadau a ymatebodd ond nid enwau, cyfeiriadau a manylion cysylltu eraill pobl.

**Sicrhau ansawdd:**

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth ar ymgynghori, sydd i'w weld yma: <http://www.bis.gov.uk/files/file47158.pdf>

Os oes gennych gwynion am y broses ymgynghori (o'u cyferbynnu â sylwadau am y materion yr ymgynghorir yn eu cylch) cyfeiriwch y rheiny at:

DECC Consultation Co-ordinator

3 Whitehall Place

London SW1A 2AW

E-bost: [consultation.coordinator@decc.gsi.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@decc.gsi.gov.uk)

# Acronymau a byrfoddau

APEL	Achredu Dysgu Blaenorol drwy Brofiad
AW	Gwres Fforddiadwy
BIS	Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau
BOE	Banc Lloegr
BRE	Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu
BSI	Sefydliad Safonau Prydain
CCA	Deddf Credyd Defnyddwyr
CCD	Cyfarwyddeb Credyd Defnyddwyr
CE	Conformité Européenne (Cydymffurfiaeth Ewropeaidd)
CERT	Targed Lleihau Allyriadau Carbon
CESP	Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau
CPD	Datblygu Proffesiynol Parhaus
CPI	Mynegai Prisiau Defnyddwyr
CO <sub>2</sub>	Carbon Deuocsid
DCLG	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
DCUSA	Cytundeb ar Ddefnyddio'r System Dosbarthu a Chysylltu
DEA	Aseswr Ynni Domestig
DEC	Tystysgrif Ynni Arddangos
DECC	Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
DIY	<i>Do It Yourself</i>
ECO	Y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni arfaethedig newydd
EOS	Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ynni
EPB	Perfformiad Ynni Adeiladau
EPBD	Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau
EPC	Tystysgrif Perfformiad Ynni
EU	Yr Undeb Ewropeaidd
FMB	Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
FOS	Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol
FSA	Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
GB	Prydain Fawr
GDA	Cytundeb Trefniadau'r Fargen Werdd
GDAR	Adroddiad Cyngor y Fargen Werdd
GHG	Nwy T• Gwydr
HVAC	Gwresogi, Awyru a Thymheru
INCA	Cymdeithas Rendr a Chladin wedi'u Hinswleiddio
LATTS	Gwasanaethau Safonau Masnachu'r Awdurdodau Lleol
Cromlin MAC	Cromlin y Gost Leihau Ymylol



MRA	Y Prif Gytundeb Cofrestru
MtCO <sub>2</sub> e	Cyferwerth â Miliynau o Dunelli o Garbon Deuocsid
NOS	Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
Ofgem	Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan
OFT	Y Swyddfa Masnachu Teg
RdSAP	Gweithdrefn Asesu Safonol data Cyfyngedig
RPI	Y Mynegai Prisiau Manwerthu
SAP	Gweithdrefn Asesu Safonol
SBEM	Model Ynni Adeiladau Wedi'i Symleiddio
SME	Mentrau Bach a Chanolig
SWI	Inswleiddio Waliau Solet
SWIGA	Asiantaeth Gwarantu Inswleiddio Waliau Solet
UCPD	Cyfarwyddeb Arferion Masnachol Annheg
UKAS	Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig
USA	Unol Daleithiau America
UTCCR	Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr
VAT	Treth ar Werth
WAG	Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Rhagair

## Uwchraddio dyfodol cartrefi a swyddfeydd Prydain: inswleiddio teuluoedd a busnesau rhag cynnydd mewn prisiau

Mae eiddo ym Mhrydain yn gollwng gyda'r gwaethaf ym myd y Gorllewin. Mae gormod o bobl yn gweithio mewn swyddfeydd sy'n gwastraffu ynni neu'n goddef biliau ynni gartref sy'n cynyddu o hyd, dim ond i gadw'r ystafell fyw yn ddigon cysurus. Mae hyn yn anghyffyrddus ac yn anfforddiadwy iddyn nhw ac yn anghynaliadwy i'r amgylchedd.

Gweledigaeth uchelgeisiol a phell-gyrhaeddol yw gweledigaeth y Fargen Werdd a'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) newydd. Ynnddi mae'r Deyrnas Unedig yn arwain gyda marchnad ddeinamig newydd mewn effeithlonrwydd ynni, lle bydd brandiau cenedlaethol, busnesau lleol a sefydliadau cymunedol yn cystadlu i roi'r cynnig gorau i'r defnyddiwr.

Bydd y fargen Werdd yn rhoi'r rheolaeth yn ôl i'r defnyddwyr. Erbyn 2020, byddwn wedi gweld chwyldro mewn eiddo ym Mhrydain. Bydd miliynau ohonon ni'n byw ac yn gweithio mewn mwy o gysur, drwy uwchraddio ac inswleiddio eiddo na fydd yn costio'r ddaear i'w gynhesu, a bydd gwell dulliau rheoli a mesuryddion yn ein helpu i reoli'r ynni rydyn ni'n ei ddefnyddio, ac i gynhyrchu ein gwres neu'n trydan ein hunain. Bydd llai ohonon ni'n cael trafferth ymglâ'n biliau tanwydd, gan fethu cyrraedd safonau sylfaenol heb wario cyfran anferth o'r gyllideb wythnosol. Ac i lawer o bobl bydd hyn yn golygu cartref mwy deniadol – gall mesurau modern fel inswleiddio walïau solet allanol fod yn gatalydd i droi teras wedi'i chwipio yn olygfa gymen a smart; gall mesurau mewnol sbarduno rendr neu waith peintio newydd; gall amnewid bwyler aneffeithlon gael ei wneud yn hawdd wrth i'r gegin gael ei hadnewyddu.

Gan y bydd y Fargen Werdd yn lleihau faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio, bydd llawer mwy o aelwydydd yn gallu cadw eu biliau ynni i lawr hyd yn oed wrth i brisiau ynni barhau i godi. Gan mai sbarduno buddsoddiadau preifat yw diben y Fargen Werdd, bydd yn hybu twf ac yn symbylu'r economi.

I'r wlad gyfan, mae eiddo sy'n gollwng gwres ac arian hefyd yn eiddo sy'n gollwng carbon. Rhesymeg ganolog y Fargen Werdd yw lleihau allyriadau carbon mewn modd cost-effeithiol. Gwyddom mai inswleiddio yn aml yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol i leihau allyriadau carbon o adeiladau. Mae hefyd yn aml yn un o becyn o welliannau, sy'n cynnwys mesurau gwresogi, y mae eu hangen i godi teulu allan o dlodi tanwydd. Bydd defnyddwyr yn cael eu hannog felly i gymryd pecyn

cynhwysfawr o fesurau. Dylai'r mesurau hyn baratoi cartrefi ar gyfer dyfodol carbon-isel newydd 2050.

Dyma'r weledigaeth ar gyfer y Fargen Werdd a'r ECO:

- i. Polisi arloesol wedi'i dylunio o amgylch y defnyddwyr;
- ii. Marchnad newydd, agored a deinamig i fusnesau; a
- iii. Buddsoddiadau sy'n gyrru twf economaidd;

*Gan arwain at:*

- iv. Gollwng llai o garbon
- v. Llai o deuluoedd mewn tlodi tanwydd
- vi. Gwell cartrefi

## **i. Dylunio o amgylch y defnyddwyr**

Mae llawer o fesurau effeithlonrwydd ynni yn arbed arian ar unwaith – felly beth sy'n ein stopio ni? Mae ein hymchwil ni'n dangos bod pobl yn methu gweithredu am eu bod yn methu fforddio'r costau ymlaen llaw neu am eu bod yn ansicr a allan nhw ymddiried yn ansawdd y gwaith. Mae cynlluniau blaenorol gan y Llywodraeth wedi canolbwyntio gormod ar weithio o'r brig tuag i lawr i gymryd dymuniadau'r defnyddwyr eu hunain i ystyriaeth. Mae'r Fargen Werdd yn newid hyn i gyd. Craidd y Fargen Werdd yw mecanwaith ariannol arloesol newydd sy'n amcangyfrif y costau sydd i'w talu ymlaen llaw gan roi sicrwydd y dylai'r arbedion dalu am y costau. I gyd-fynd â'r cyllid ceir dulliau cryf i ddiogelu'r defnyddwyr gan gynnwys system a ategir gan y Llywodraeth i achredu asesiadau, mesurau dibynadwy a gwaith gosod o safon. Yn fwy na dim bydd hyn yn cael ei arwain gan ddefnyddwyr, gan greu marchnad newydd ac agored lle bydd amrywiaeth o ffyrmiau'n cystadlu i ateb y galw o du'r defnyddwyr.

### ***Costau ymlaen llaw***

Mae'r Fargen Werdd wedi'i hymgorffori yn Neddf Ynni 2011 ac mae'n caniatáu i gwmnïau preifat gynnig buddsoddiadau ymlaen llaw mewn effeithlonrwydd ynni gan adennill y taliadau wedyn drwy filiau ynni. Mae i'r syniad syml hwn effaith arwyddocaol. Mae'n golygu nad yw'r defnyddwyr yn wynebu costau ymlaen llaw, ac mae hefyd yn golygu mai dim ond tra byddan nhw yn yr eiddo ac yn gallu mwynhau'r manteision y byddan nhw'n gwneud taliadau. Gan fod y gost yn cael ei hychwanegu at y bil trydan, mae'n aros gyda'r eiddo ac yn cael ei hysgwyddo gan y sawl sy'n talu'r bil wrth iddo symud i'w gartref sydd wedi'i wella. Mae "Rheol Aur" y Fargen Werdd, sydd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, yn pennu bod rhaid i unrhyw gost fod yn llai na'r arbedion a ddisgwylir yn sgil y retroffitio (gweler Pennod 4 i gael rhagor o

fanylion). Felly, mae'r defnyddiwr yn sicrhau cartref mwy clyd ac effeithlon, heb gost ymlaen llaw, y disgwylir iddo dalu amdano'i hun.

Wrth gwrs, nid pob mesur a fydd yn talu amdano'i hun ar bob aelwyd. Oherwydd y math o adeiladwaith, mae rhai cartrefi yn fwy cymhleth ac yn ddrutach i'w gwella ac mae ar y rhain angen mesurau fel inswleiddio waliau solet nad ydyn nhw bob amser yn bodloni'r Rheol Aur. Bydd angen arian ychwanegol i beri bod y rhain yn fforddiadwy. Hefyd, mae yna ormod o aelwydydd isel eu hincwm ac aelwydydd agored i niwed sy'n methu fforddio cynhesu eu cartrefi'n iawn ar hyn o bryd. Bydd y cartrefi hyn ar eu hennill o gael mesurau fel inswleiddio a systemau gwresogi

newydd nid gymaint drwy arbed arian ar eu biliau â thrwy fyw mewn cartrefi cynhesach, iachach. Er mwyn helpu'r aelwydydd tlotaf a mwyaf agored i niwed, bydd angen cymorth ariannol ychwanegol.

Dyna pam, fel rhan o dirlun y Fargen Werdd newydd, mae'r Llywodraeth yn sefydlu'r ECO. O dan y cynllun hwn, bydd y cyflenwyr ynni mawr wedi'u rhwymo gan y gyfraith i roi'r union fath o gymorth ychwanegol y mae ei angen i sicrhau bod cartrefi anodd eu trin, a'r aelwydydd sydd ar yr incwm isaf ac sy'n fwyaf agored i niwed, yn gallu manteisio ar y trefniadau newydd.

### ***Ymddiried yn y gwaith***

Yr ail anhawster yw pryder y cwsmeriaid yngl â'r gwaith ei hun. Mae'r Fargen Werdd yn sefydlu system gadarn sy'n ymestyn o'r cynghorydd sy'n gwneud asesiad pwrpasol o'r eiddo, i'r mesurau a argymhellir, i'r gosodwr sy'n eu gosod, ac i gynllun y Fargen Werdd sy'n sefydlu'r ad-daliadau ariannol ochr yn ochr â'r gwarantiau ar wasanaeth i gwsmeriaid. Mae pob un o'r dolenni hyn yn y gadwyn yn cael ei hategu ag achrediad er mwyn rhoi i'r defnyddiwr y tawelwch meddwl y mae arno ei angen. Yn benodol, bydd ar bawb sy'n cymryd rhan y Fargen Werdd angen Nod Ansawdd er mwyn i'r cwsmeriaid weld ei fod wedi'i achredu yn ôl safonau Cynllun y Fargen Werdd.

### ***Ymwybyddiaeth***

Yn olaf, ac yn holl-bwysig, mae yna lawer o bobl nad ydyn nhw'n gwybod am yr opsiynau. Dydyn nhw ddim yn gwybod beth allai gael ei wneud i'w heiddo na pha wahaniaeth y gallai effeithlonrwydd ynni ei wneud i'w biliau. Mae ymgyrchoedd hysbysebu wedi'i chael yn anodd codi ymwybyddiaeth yn effeithiol. Er hynny, mae'r Fargen Werdd yn newid y tirlun. Mae'n galluogi defnyddwyr i ddewis cyflenwyr a all gael eu cymharu â safonau'r cynlluniau awdurdodi, ac i ariannu gwaith drwy ddefnyddio ffynhonnell cyllid newydd. I fusnesau, mae'n agor y farchnad effeithlonrwydd ynni ac o bosibl y farchnad micro-gynhyrchu hefyd er mwyn iddyn nhw ddefnyddio'r gwaith arloesol hwn i gynnig pecynnau cyffrous newydd i ddefnyddwyr. Nid tiriogaeth y cwmnïau ynni a bargeinion bylbiau golau mo hon bellach, ond yn hytrach marchnad lle gall eich plymwr lleol, eich siop grefftiau neu'ch siop adrannol fynd ati i hybu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni carbon-isel. Gallen nhw gynnig inswleiddio toeon yn ogystal ag amnewid eich bwyler, neu awgrymu inswleiddio waliau solet pan fyddwch yn ystyried ail-wneud yr ardd, neu retroffitio'r tŷ cyfan pan fyddwch yn cynllunio uwchraddio'ch cegin. Bydd busnesau'n gallu defnyddio'u hadnabyddiaeth o'u cwsmeriaid i gynnig gwasanaeth sydd wedi'i deilwra iddyn nhw, ar adeg sy'n addas iddyn nhw. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn sicrhau bod yna wasanaeth cynghori diduedd ar-lein a thros y ffôn er mwyn i ddarpar gwsmeriaid droi ato fel darparwr atebion diduedd i'w cwestiynau, ac fel ffordd i wirio

gwybodaeth sydd wedi'i rhoi iddyn nhw. Bydd y cyngor hwn yn ymdrin â'r gwahanol dechnolegau meicro-gynhyrchu posibl yn ogystal â mesurau effeithlonrwydd ynni.

### ***O dan arweiniad y cwsmer***

Ei hamrywiaeth a'i hyblygrwydd yw allwedd y Fargen Werdd. Bydd holl gwsmeriaid y Fargen Werdd ar eu hennill o gael asesiad cynhwysfawr a diduedd ar eu heiddo, ac yn gallu siopa rhwng y gwahanol gynigion yn y farchnad. Dangosodd ymchwil inni fod rhai cwsmeriaid yn dymuno talu rhan o'r costau cyfalaf ymlaen llaw neu ychwanegu at eu buddsoddiad. Felly, o dan ein cynigion ni, gall cwsmeriaid ddefnyddio cyllid y Fargen Werdd i dalu am fesurau effeithlonrwydd ynni hyd at derfyn y Rheol Aur neu ei ddefnyddio ochr yn ochr â'u buddsoddiad eu hunain os oes arnyn nhw eisiau mesurau gwella cartref eraill nad oes disgwyl iddyn nhw greu arbedion ar eu bil ynni. Bydd cymorth yr ECO ar gael i helpu i sicrhau bod mesurau megis inswleiddio walïau solet ar gael, sy'n ddrutach ar hyn o bryd. Dangosodd yr ymchwil inni hefyd fod ar rai cwsmeriaid eisiau'r sicrwydd o allu ad-dalu'r Fargen Werdd yn gynnar; mae'n cynigion yn cynnwys yr opsiwn hwn ac eto yn cadw cost gyffredinol y cyllid mor isel ag y bo modd.

Mae'r Fargen Werdd wedi'i dylunio hefyd i alluogi ffyrmaïu i roi cynnig integredig i gwsmeriaid ochr yn ochr â mesurau eraill i wella'r cartref ac o bosibl fesurau meicro-gynhyrchu a allai gael eu nodi drwy'r asesiad diduedd. Mae llwybr y cwsmer wedi'i ddylunio i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid wneud penderfyniadau hyderus ynghylch uwchraddio'u cartrefi a'u swyddfeydd. I rai pobl, mae hynny'n golygu y byddan nhw'n dechrau drwy fod â diddordeb yn bennaf mewn amnewid hen fwylar neu hyd yn oed amnewid eu cegin neu eu ffenestri ond eu bod yn cael eu hannog i ystyried amrediad llawn o welliannau drwy asesiad diduedd a'r ffaith bod cyllid y Fargen Werdd ar gael i ariannu rhywfaint o'u costau.

Mae'r cynnig di-fwlch yma i'r cwsmer hefyd yn cynnwys cynlluniau cyllid eraill gan y Llywodraeth. Ochr yn ochr â gosodiadau sy'n cael eu hariannu gan y Fargen Werdd, rydyn ni'n hyderus y bydd llawer o ddarparwyr yn cynnig mesurau carbon-isel eraill megis systemau gwres a dr poeth adnewyddadwy (pymphiau gwres, paneli haul thermol) a chynhyrchu trydan ar y safle. Byddai'r rhain yn cael eu cynnal â chymhellion ariannol ar wahân sydd eisoes ar gael neu sydd wrthi'n cael eu sefydlu.

Afraid dweud, ond er mwyn sicrhau bod y llwybr i'r cwsmer mor syml â phosibl, mae angen i'r manylion cymhleth y tu ôl i'r llenni fod yn gywir – dyna pam mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro o gwmpas pob cam o daith y cwsmer.


## **ii. Marchnad newydd**

Gall y Fargen Werdd fod yn gynnig gwych i gwsmeriaid; mae hefyd yn gyfle gwych i ffyrmiau gystadlu mewn marchnad newydd. Mae'n gwaith dadansoddi ni'n dangos y bydd y Fargen Werdd a'r ECO yn sbarduno biliynau o bunnoedd o fuddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni dros y degawd nesaf. Rydyn ni wedi'n calonogi gan yr amrediad eang o ffyrmiau – mawr a mân, arbenigol a chyffredinol – y ogystal ag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol, a sefydliadau yn y trydydd sector sydd wedi ymwneud â'r Llywodraeth dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Rydyn ni'n rhagweld marchnad amrywiol y bydd llawer o sefydliadau gwahanol yn chwarae eu rhan ynddi. Byddwn yn edrych ar effaith y Fargen Werdd ar fusnesau meicro a faint ohonyn nhw fydd yn ymgymryd â'r Fargen Werdd.

Dim ond os yw'r farchnad yn wirioneddol agored a chystadleuol y bydd y Fargen Werdd yn gwireddu ei photensial llawn, gan alluogi chwaraewyr sefydledig a dechreuwyr newydd i arloesi ynghyd ag anghenion y cwsmeriaid. Dyna pam nad ydyn ni'n bwriadu gorfodi un model busnes y bydd rhaid i bob darparwr ei ddilyn. Heblaw am y cwmnïau ynni mwyaf, a fydd yn cael eu gorfodi i gasglu taliadau, ein dull gweithredu ni yw:

- Diogelu cwsmeriaid drwy ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith aros tan ar ôl i asesiad diduedd gael ei wneud gan asesydd achrededig, a chael ei wneud gan osodwr achrededig, yn un o amodau cymryd rhan mewn cynllun o dan y Fargen Werdd;
- Mynnu bod gan y swyddogaeth sydd i'w chyflawni y lefel briodol o achrediad;
- Caniatáu i sefydliadu benderfynu eu hunain pa rai o'r swyddogaethau y maen nhw am eu cyflawni a phenderfynu â pha sefydliadau eraill y maen nhw am greu partneriaeth.

Diagram 1: cadwyn werthoedd gryno sy'n darlunio'r swyddogaethau hynny y mae angen achrediad ychwanegol ar eu cyfer o dan y Fargen Werdd a'r rhai sy'n dod o dan y ddeddfwriaeth bresennol ar hawliau defnyddwyr.




Wrth gwrs, bydd rhai ffyrmiau am gyflawni pob rhan o'r gadwyn o werthoedd yn fewnol drwy ddefnyddio'u staff eu hunain. Bydd eraill am arbenigo mewn un

swyddogaeth y maen nhw'n wych ynddi gan bartneru â sefydliadau arbenigol eraill i gyflawni swyddogaethau eraill, fel y darlunnir yn Niagram 1.

Un enghraifft fyddai ffyrm osod arbenigol sy'n dda iawn am ddod o hyd i gwsmeriaid a gosod mesurau, ond nad yw am fod yn ddarparwr credyd. Mae Diagram 2 yn darlunio sut y gall cynifer â phedwar neu bump o sefydliadau gwahanol gydweithio i gyflawni pob rhan o'r gadwyn werthoedd. Mae'r gosodwr arbenigol yn canolbwyntio ar weithio gyda'r cwsmer i drefnu'r gwaith ac i osod yr ystod lawn o fesurau. Mae darparwr y Fargen Werdd yn canolbwyntio ar ddarparu credyd i'r cwsmeriaid, gan gynnwys sicrhau cyllid cyfanwerthol gan y marchnadoedd cyfalaf, wedi'i frocera gan y gosodwr-trefnydd. Fe allai hyn fod yn "wasanaeth label wen", sef un a all gael ei ailfrandio at ddibenion marchnata gan gwmni arall. Ac, yn yr enghraifft yma, ffyrm wahanol sy'n gwneud yr asesiad diduedd – gallai fod yn gontractiwr i'r gosodwr-trefnydd neu'n drydydd parti fel awdurdod lleol neu elusen.

Diagram 2: Model partneriaeth posibl gyda gosodwr-drefnydd (blwch coch) a darparwr Bargen Werdd label wen arbenigol (blwch gwyrdd).



## Agor y farchnad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r camau rydyn ni'n eu cymryd i wireddu'r weledigaeth o farchnad wirioneddol agored a chystadleuol. Mae dau o'r rhain yn arbennig o bwysig:

- **Mwy o dryloywder a chyfle i gael y cymorth sy'n cael ei roi gan yr ECO, drwy swyddogaeth "brocera" newydd.** Mewn llawer o achosion byddai



angen i gynnig i'r cwsmer o dan y Fargen Werdd gynnwys cyllid y Fargen Werdd, a mesur o gymorth drwy'r ECO newydd. Mae'n hanfodol bod y ddwy ffynhonnell ariannol hyn yn gallu dod at ei gilydd yn llyfn, ac y gall holl ddarparwyr y Fargen Werdd fod yn hyderus y bydd ganddyn nhw gyfle teg i sicrhau'r cymorth yma gan yr ECO, os ydyn nhw'n llunio cynnig sy'n wirioneddol werth yr arian. Gan hynny, rydyn ni'n cynnig swyddogaeth frocera, lle gall angen darparwyr y Fargen Werdd i ddenu cyllid ychwanegol gael ei gyplysu â chynigion o gymorth ariannol gan gwmnïau'r ECO, ar sail deg a thryloyw.

- **Cydweithio â sefydliadau ariannol i agor cyllid i'r cyfan o farchnad y Fargen Werdd.** Bydd angen i ddarparwyr y Fargen Werdd gyrchu cyfalaf sylweddol er mwyn cynnig gwelliannau heb gostau ymlaen llaw ac i gael eu had-dalu drwy daliad hirdymor ar y bil trydan. Rydyn ni wedi ymwneud ag ystod o fuddsoddwyr sefydliadol fel cronfeydd pensiwn, rheolwyr asedau, a banciau ynglŷn â datblygu'r llif arian hirdymor a fydd yn cael ei chreu gan y Fargen Werdd a honno'n llif arian sy'n isel o ran risg ac yn gallu cael ei chyllido ar raddfa ehangach. Er enghraifft, aethon ni ati i gynnal cyfres o drafodaethau bwrdd crwn yn Ninas Llundain yn gynharach eleni i drafod pa mor hyfyw yw'r Fargen Werdd fel buddsoddiad ariannol ac er mwyn datblygu syniadau ar faterion fel dyrannu'r risg y byddai cwsmeriaid yn methu talu.

Mae ymgynghori â'r gymuned gyllid a darparwyr posibl y Fargen Werdd yn rhoi tystiolaeth glir y bydd y darparwyr yn y farchnad yn chwilio am gyllid oddi ar y fantolen a'r gallu i sicrhau cyllid drwy'r marchnadoedd cyfalaf, er enghraifft drwy werthu taliadau'r Fargen Werdd ymlaen (er enghraifft troi derbyniadau o'r Fargen Werdd yn warannoedd). Bydd troi derbyniadau'r Fargen Werdd yn warannoedd yn caniatáu i gronfeydd pensiwn a chronfeydd yswiriant fuddsoddi yn y Fargen Werdd ac yn eu tro sicrhau llif incwm hirdymor sy'n isel ei risg. Bydd cost sicrhau cyllid drwy'r marchnadoedd cyfalaf yn dibynnu i raddau helaeth ar sut y bydd lefel y risg sy'n gysylltiedig â gwarannoedd y Fargen Werdd yn cael ei hasesu gan asiantaethau sgorio credyd, yn hytrach nag ar gryfder cyffredinol mantolen y darparwr. Mae ein hymwneud â'r sector ariannol yn rhoi hyder inni y gall cyllid gael ei sicrhau am gyfraddau cryn dipyn yn is na benthyciad personol ansicredig. Mae hefyd yn golygu y dylai darparwyr achrededig lwyddo i sicrhau cyllid ar delerau tebyg. Byddwn yn parhau i gydweithio â darparwyr a sefydliadau ariannol i fonitro cyflenwad cyllid masnachol i ddarparwyr.

### iii. **Buddsoddi'n sbarduno twf**

Mae ailfywiogi'r farchnad yn dda o ran dewis i gwsmeriaid ond mae'n dda hefyd o ran twf yr economi. Yn hytrach na gweld rhaglen wario arall gan y Llywodraeth yn peri i'r economi ymlusgo, drwy wasgu sector preifat effeithlon a chystadleuol, bwriad y Fargen Werdd yw denu rhagor o fuddsoddiadau. O dan y senarios sydd wedi'u

nodi yn ein hasesiad effaith, rydyn ni'n amcangyfrif y bydd y farchnad, dros y degawd nesaf, wedi sicrhau biliynau o bunnoedd o fuddsoddiadau, gan gynnal cannoedd o swyddi.

Yn y sector masnachol, fe allai'r Fargen Werdd sbarduno mwy o effeithlonrwydd ynni, gan ganiatáu i'r un lefel o wasanaethau ynni gael eu cynhyrchu am lai o fewnbwn ynni. Gall effeithlonrwydd ynni wella cynhyrchedd busnesau, gan hybu cystadleurwydd. Fel y mae'n hasesiad effaith yn dangos, mae yna botensial ar gyfer effeithlonrwydd o ran adnoddau (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni) a allai arbed £1.06 biliwn i fusnesau drwy fabwysiadu mesurau cost-isel neu fesurau di-gost sy'n talu'n ôl o fewn blwyddyn.

#### **iv. Lleihau allyriadau carbon, gwella diogelwch ynni a helpu cwsmeriaid agored i niwed**

Bid a fo am ei holl fanteision i'r cwsmer, rhesymeg lethol ym maes y polisi cyhoeddus yw sail y Fargen Werdd a'r ECO. Amcanion sylfaenol y Fargen Werdd a'r ECO yw cynyddu effeithlonrwydd ynni er mwyn sbarduno llai o allyriadau carbon, gostwng y ddibyniaeth ar fewnforion ynni prin ac anwadal, a helpu aelwydydd isel ei hincwm ac aelwydydd agored i niwed i ostwng costau ynni a dianc o dlodi tanwydd.

#### **Allryriadau carbon**

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf i ddiogelwch a ffyniant y Deyrnas Unedig a'r byd. Mae yna gonsensws gwyddonol llethol bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd, a bod hyn yn deillio'n bennaf yn ôl pob tebyg o weithgareddau pobl.

Heb weithredu i gwtogi ar allyriadau, mae yna risg uchel iawn y gwelwn ni gynhesu byd-eang yn cyrraedd ymhell y tu hwnt i 2°C o'i gymharu â'r cyfnod cyn-ddiwydiannol. Heb ei ffrwyno, byddai cynhesu byd-eang o'r fath yn cynyddu'r risg o newid cyflymach neu newid di-droi'n-ôl yn system yr hinsawdd, megis dechrau toddi llenni iâ yr Ynys Werdd a Gorllewin yr Antarcig, gan arwain at gynnydd mawr yn lefel y môr, neu at ollwng storffeydd naturiol mawr o fethan o'r cefnforoedd neu o doddi'r rhew parhaol, a allai beri rhagor o gynhesu.

Calon ein hymagwedd ni at osgoi'r risg o newid peryglus yn yr hinsawdd yw Deddf Newid Hinsawdd 2008, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ostwng allyriadau nwyon t• gwydr drwy wneud y canlynol:

- Torri allyriadau o leiaf 34% erbyn 2020 ac 80% erbyn 2050 – islaw gwaelodlin 1990;
- Gosod a chyflawni cyllidebau carbon pum-mlynnyddol i'r Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod hwnnw; a

- Mynnu bod y cyllidebau carbon hyn yn cael eu gosod dri chyfnod cyllidebau ymlaen llaw – fel ei bod bob amser yn glir beth fydd allyriadau'r Deyrnas Unedig am y 15 mlynedd nesaf – gan bennu'r llwybr tuag at dargedau 2020 a 2050.

Mae gan y gweinyddiaethau datganoledig hwythau dargedau uchelgeisiol. Er enghraifft yn yr Alban mae Deddf Newid Hinsawdd (yr Alban) 2009 yn pennu targed o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 42% erbyn 2020 ac 80% erbyn 2050 (gan ddefnyddio gwaelodlin 1990). Mae Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru o ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% y flwyddyn o 2011 yn y meysydd cymhwysedd sydd wedi'u datganoli (gan ddefnyddio gwaelodlin 2006-10).

Effeithlonrwydd ynni yw un o'r ffyrdd mwyaf cost-effeithiol i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Yr ynni rhataf yw'r ynni dydyn ni ddim yn ei ddefnyddio, ac mewn byd o gynnydd mewn prisiau ynni, anwadalrwydd mewn marchnadoedd a dibyniaeth ar fewnforion, fu hi erioed yn bwysicach bod yn effeithlon gyda'n hynni. Mae pob cwsmer a phob busnes yn ceisio gweld sut y gallan nhw ostwng eu biliau misol, ac effeithlonrwydd ynni yw'r dewis cyntaf amlwg.

Stoc adeiladau'r Deyrnas Unedig yw'r lle naturiol i ddechrau. Mae honno ymhlith y mwyaf aneffeithlon yn y byd ac mae'n cyfrannu cryn gyfran o allyriadau'r Deyrnas Unedig. Cyfanswm allyriadau adeiladau (annomestig a domestig) oedd 93 MtCO<sub>2</sub>e yn uniongyrchol a 111MtCO<sub>2</sub>e yn anuniongyrchol (drwy ddefnyddio trydan) yn 2009. Roedd hynny'n 43% o gyfanswm allyriadau'r Deyrnas Unedig yn 2009. Fydd dim modd cyflawni'r cyllidebau carbon heb ostyngiadau yn allyriadau'r amgylchedd adeiledig. Fe allai effeithlonrwydd ynni arbed 131 MtCO<sub>2</sub>e (51 wedi'u masnachu, 82 heb eu masnachu) gan gyfrannu'n sylweddol felly at dargedau'r Deyrnas Unedig ynglŷn â gostwng allyriadau.<sup>2</sup>

Mae gan y Deyrnas Unedig un o'r stociau tai hynaf ar gyfartaledd o unrhyw wlad yn y byd. Cafodd 75% o'r adeiladau annomestig eu codi cyn 1985, a bron un rhan o dair cyn 1940. Mae gennyn ni effeithlonrwydd ynni is o ran cynhesu gofod na llawer o wledydd eraill Ewrop, hyd yn oed ar ôl caniatáu am y tymheredd yn yr awyr agored.

Rydyn ni'n gwybod bod angen inni ostwng ein hallyriadau er mwyn mynd i'r afael â newid peryglus yn yr hinsawdd a chyrraedd targedau pwysig y Ddeddf Newid Hinsawdd sy'n mynd â ni tuag at ddyfodol carbon-isel. Mae'n gyfle i'r Deyrnas Unedig ddangos arweiniad mewn arloesi, a pholisi'r Fargen Werdd a'r ECO yw'r cyntaf o'i fath yn y byd wrth ostwng carbon.

---

<sup>2</sup> Gweler Asesiad Effaith y Fargen Werdd a'r ECO (23 Tachwedd 2011)

## Cadw Cyflenwad Ynni Diogel

Un o swyddogaethau craidd y llywodraeth yw sicrhau bod gan y Deyrnas Unedig ynni diogel, glân a fforddiadwy, fel bod gan ddefnyddwyr a busnesau oleuni, gwres a thanwydd dibynadwy pan fydd eu hangen. Er hynny, mae'r Deyrnas Unedig yn wynebu cyfres o risgiau i ddiogelwch ynni, a'r rheiny'n aml yn fyd-eang eu natur. Mae costau cynyddol tanwydd yn golygu na allwn ni barhau i anwybyddu'r problemau sy'n cael eu creu gan yr aneffeithlonrwydd ynni yn stoc adeiladau'r Deyrnas Unedig.

Mae'r Deyrnas Unedig yn fwyfwy dibynnol ar fewnforio tanwyddau ffosil, a'r canlyniad yw bod y Deyrnas Unedig yn fwyfwy agored i risgiau yn sgil cynnydd yn y galw byd-eang, cyfyngiadau ar gynhyrchu a phrisiau anwadal. Dydy'r risgiau hyn ddim yn debyg o leihau yn y tymor byr neu ganolig. Rhwng 1998 a 2008, daeth y Deyrnas Unedig yn fewnforiwr net nwy ac olew. Trodd allforion net o 60 Mtoe ym 1998 yn fewnforion net o gyfanswm o 30 Mtoe yn 2008. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn yr olew a'r nwy a gynhyrchwyd gan y Deyrnas Unedig o 134% o'r galw cenedlaethol ym 1998 i 83% yn unig o'r galw yn 2008. Mae amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gosod y gymhareb yma yn 52% yn unig yn 2020.<sup>3</sup> Byddai gwneud ein hadeiladau'n fwy effeithlon o safbwynt ynni yn helpu i leihau'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig a'r galw amdano. Drwy leihau'n galw am ynni, byddai'n haws ateb ein hanghenion ynni; byddai'n lleihau ein dibyniaeth ar fewnforio tanwyddau ffosil; a byddai'n golygu ein bod yn llai agored i anwadalrwydd prisiau tanwydd.

## Tlodi tanwydd

Mae niferoedd cynyddol o deuluoedd ac aelwydydd yn ei chael yn anodd talu eu biliau tanwydd ac aros yn gynnes. Rydyn ni'n amcangyfrif i bydd hyd at 4.1m o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn Lloegr yn unig eleni. Mae codiadau diweddar mewn prisiau yn debyg o fod wedi gwrthio niferoedd mwy byth i mewn i dlodi tanwydd, gan wneud niwed o bosibl i ansawdd bywyd ac iechyd yr aelwydydd, sy'n gallu creu costau ehangach i'r gymdeithas. Rydyn ni wedi ymrwmo, yn unol â'n strategaeth,<sup>4</sup> i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a helpu cwsmeriaid sy'n agored i niwed i gynhesu eu cartrefi ar gost fforddiadwy.

Mae effeithlonrwydd ynni aelwydydd yn ffactor allweddol. Mae teuluoedd sydd mewn tlodi tanwydd yn wynebu dewis rhwng byw yn yr oerfel, gan ddiodeff anfantais

---

<sup>3</sup> [https://www.og.decc.gov.uk/information/bb\\_updates/chapters/production\\_projections.pdf](https://www.og.decc.gov.uk/information/bb_updates/chapters/production_projections.pdf)

<sup>4</sup> Mae'r Llywodraeth o dan ddyletswydd statudol i ddileu tlodi tanwydd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn Lloegr erbyn 2016, yn unol â'r manylion yn yr 'UK Fuel Poverty Strategy' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001. Mae dogfen y strategaeth ar gael drwy [http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/funding/fuel\\_poverty/strategy/strategy.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/funding/fuel_poverty/strategy/strategy.aspx)

gorfforol a chymdeithasol yn sgil hynny, neu ymdopi â biliau ynni diangen o uchel, yn sgil cartrefi sydd heb inswleiddiad da ac sydd â gwres aneffeithlon. Mae cost y mesurau y mae eu hangen i wella ffabrig y cartref yn aml yn rhwystro pobl rhag eu gosod, ochr yn ochr â rhwystrau cymdeithasol sy'n gallu effeithio ar allu'r aelwydydd i ymwneud â chynigion masnachol.

Bydd y targed Gwres Fforddiadwy yn yr ECO, a gyflwynwyd o dan Ddeddf Ynni 2011, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwyr ynni helpu aelwydydd isel eu hincwm ac aelwydydd sy'n agored i niwed drwy ddarparu'r mesurau y mae arnyn nhw eu hangen i aros yn gynnes ac yn iach, gan eu helpu i symud allan o dlodi tanwydd ar sail gynaliadwy. Bydd y Fargen Werdd a'r ECO, ac yn enwedig y rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy, yn llinyn allweddol yn ein strategaeth i helpu i fynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid isel eu hincwm a chwsmeriaid sy'n agored i niwed o 2012 ymlaen ac i wneud rhagor o gynnydd ar ateb tlodi tanwydd.

Ym mis Hydref 2010 gwnaethom gyhoeddiad y dylai adolygiad annibynnol gael ei gynnal i edrych o'r newydd ar darged a diffiniad tlodi tanwydd. Rydyn ni am ganolbwyntio'r adnoddau sydd ar gael ar y manau lle byddan nhw'n fwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r problemau sydd y tu ôl i dlodi tanwydd. Ar 14 Mawrth 2011 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, Chris Huhne AS, fod cais wedi'i wneud i'r Athro John Hills gynnal yr adolygiad. Cyhoeddodd yr Adolygiad adroddiad interim ar 19 Hydref 2011 a bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau llawn yn gynnar yn 2012.

## **Diolch**

Anarferol yw *dechrau* ymgynghoriad drwy ddiolch i ystod eang o randdeiliaid sydd wedi helpu i lunio'n cynigion. Er hynny, mae'r Fargen Werdd a'r ECO wedi'u datblygu mewn cydweithrediad dros y deunaw mis diwethaf gydag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys:

- Rheoleiddwyr
- Awdurdodau lleol
- Cwmnïau ynni
- Cyrff masnachol
- Grwpiau defnyddwyr
- Perchnogion eiddo
- Asiantau tai
- Cwmnïau cyllid
- Darpar ddarparwyr y Fargen Werdd
- Gweithgynhyrchwyr
- Aseswyr
- Gosodwyr

Yn benodol, rydyn ni wedi bod ar ein hennill yn sgil gwaith gan nifer o fforymau sefydlog ar y Fargen Werdd a gweithgorau ar gyllid ac ar ddull casglu'r cwmnïau ynni. I gael rhagor o wybodaeth am waith y grwpiau hyn a sut i gadw mewn cysylltiad â'r Fargen Werdd wrth iddi ddatblygu, gweler gwefan y DECC yn: [http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/tackling/green\\_deal/gd\\_stakeholder/gd\\_stakeholder.a.spx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/tackling/green_deal/gd_stakeholder/gd_stakeholder.a.spx). Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddarllen eich sylwadau am y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, sef sylwadau a fydd yn cael eu defnyddio i helpu i fireinio'r offerynnau statudol.

### **Ymdrech ar y cyd**

Mae'r ymgynghoriad wedi'i ddylunio â chyfraniad sylweddol gan y Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru a'r Alban gan geisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn adlewyrchu tirluniau deddfwriaethol a chymdeithasol unigryw y ddwy genedl. Bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn parhau i gymryd rhan i ddatblygu'n cynigion drwy gydol yr ymgynghoriad ac wrth iddyn nhw gael eu rhoi ar waith.

# Crynodeb Gweithredol

## Ein cynigion

1. Er bod mesurau gwella cost-ffeithiol i fynd i'r afael â diffyg effeithlonrwydd ynni ar gael yn y sector domestig a'r sector annomestig, rydyn ni wedi gweld bod amryw o fethiannau a rhwystrau yn y farchnad ar hyn o bryd (gweler y Rhagair) sy'n atal pobl rhag ymgymryd â'r mesurau gwella hyn. Gan hynny mae fframwaith y Fargen Werdd a'r ECO wedi'i gynllunio'n unswydd i fynd i'r afael â sawl un o'r methiannau a'r rhwystrau hyn yn y farchnad. Mae wedi'i gynllunio hefyd i greu cymhellion ychwanegol, i sbarduno'r galw.
2. Dyma gydrannau'r fframwaith:
  - gwybodaeth a chyngor o hirbell gyda chefnogaeth y llywodraeth;
  - gwaith cynghori ac asesu achrededig a diduedd ar gyfer eiddo;
  - fframwaith achredu ar gyfer mesurau a chynhyrchion; dadansoddi'r gadwyn gyflenwi, ac ymyrryd i helpu i greu capasiti;
  - fframwaith achredu i ddarparwyr cyllid;
  - cyllid cost-isel ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni
  - cymorth drwy'r ECO i berchnogion eiddo anodd ei gynhesu na fydden nhw'n gallu ymgymryd â chyllid y Fargen Werdd fel arall
  - cymorth drwy'r ECO i aelwydydd isel eu hincwm ac aelwydydd agored i niwed y byddai gwelliannau perfformiad ynni yn helpu i gynhesu eu cartrefi'n fwy fforddiadwy;
  - cydsynio, datgelu a chydabod mesurau'r Fargen Werdd;
  - fframwaith achredu i osodwyr;
  - darparu ar gyfer casglu ad-daliadau cyllid drwy'r bil trydan a'u trosglwyddo i ddarparwyr y Fargen Werdd neu i ddarparwyr cyllid a enwebir;
  - partneriaethau a chyflawni'r Fargen Werdd a'r ECO yn lleol i sicrhau bod cyllid y Fargen Werdd a chymorth yr ECO yn cael eu cyfuno heb fylchau y tu ôl i'r llenni;
  - cyfundrefn diogelu defnyddwyr i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu ym mhob cyfnod drwy daith y Fargen Werdd a'r ECO;
  - pennu targedau'r ECO ar lefel a fydd yn caniatáu i'n hamcanion gael eu gwireddu heb osod gormod o faich ar y cwmnïau ynni a'r bobl sy'n talu biliau; a
  - monitro a chloriannu er mwyn bwydo datblygiadau polisi yn y dyfodol.
3. Rydyn ni'n ymwybodol y bydd yn hanfodol goruchwyllo'r Fargen Werdd a'r ECO mewn modd effeithiol i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu a bod gweithgareddau'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Fargen Werdd yn cael eu

monitro er mwyn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am y perfformiad a allai helpu i wella'r gwaith cyflawni a helpu i fwydo'r polisi yn y dyfodol. Dyna pam rydyn ni'n bwriadu penodi corff annibynnol i fonitro a goruchwyllo gweithgareddau gwahanol aelodau'r Fargen Werdd a gweinyddydd i'r ECO i fonitro a goruchwyllo gweithgareddau'r cwmnïau ynni wrth iddyn nhw gyrraedd eu prif dargedau o dan yr ECO newydd. Byddai'r ddau gorff yn cael argymhell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cymryd camau, yn ôl yr angen.

4. Bydd gan y corff sy'n goruchwyllo'r Fargen Werdd y swyddogaethau a ganlyn:
  - goruchwyllo'r gofrestr o aseswyr, cynhyrchion, darparwyr a gosodwyr a awdurdodir o dan y Fargen Werdd;
  - ymdrin â cheisiadau am awdurdodiad i ddarparwyr y Fargen Werdd;
  - rholi a monitro gwaith i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer;
  - dyroddi Nod Ansawdd y Fargen Werdd a rheoli sut mae'n cael ei ddefnyddio;
  - rhoi'r manylion diweddaraf am aseswyr, cynhyrchion, darparwyr a gosodwyr sydd wedi'u hawdurdodi i'r llinell gyngor yng Nghymru a Lloegr ac ar wahân yn yr Alban;
  - rheoli cyngor, atgyfeiriadau ac iawn pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le; a
  - goruchwyllo Cytundeb Trefniadau'r Fargen Werdd (GDAA).
  
5. Mae'n debyg y bydd swyddogaethau gweinyddwr yr ECO yn debyg i'r canlynol:
  - penderfynu pa gyflenwyr sydd o fewn cwmpas y rhwymedigaeth a chyfrifo'u rhwymedigaethau (yn unol â fformwlâu a nodir yng Ngorchymyn yr ECO);
  - cynhyrchu canllawiau manwl i'r cyflenwyr ynni ynghylch cydymffurfio â'r targedau ar Arbed Carbon a Gwres Fforddiadwy yn y cynllun, gan gynnwys mesurau cymwys a sgorio mesurau;
  - cynghori ar gynlluniau arfaethedig y cyflenwyr, pan ofynnir iddyn nhw neud hynny;
  - gwirio a chadarnhau gweithgareddau'r cyflenwyr ynni, a bancio'r gweithgareddau hyn i gyfrif tuag at rwymedigaethau pob cwmni ynglŷn ag arbed carbon a chostau;
  - archwilio'r cyflenwyr i wirio bod yna weithdrefnau a systemau priodol i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn bodloni rheolau'r cynllun ac i warchod rhag twyll;
  - ymchwilio i achosion lle caiff y cynllun ei dorri a chymryd camau gorfod, os oes eu hangen; a
  - rheoli data a chyflwyno adroddiadau yn unol â'r hyn a bennir yn y Gorchymyn.

### **Gwasanaeth cynghori o hirbell gyda chefnogaeth y Llywodraeth**

6. Bydd y Llywodraeth yn cefnogi gwasanaeth cynghori o hirbell a fydd yn cynnwys llinell ffôn a gwefan. Bydd hyn yn cynnig: gwybodaeth a chymorth



annibynnol a diduedd i ddefnyddwyr, busnesau a'r sector cyhoeddus; atgyfeiriadau at aseswyr, gosodwyr a darparwyr achrededig y Fargen Werdd, ac yn gweithredu fel mynedfa i'r rhai a allai fod yn gymwys i gael cymorth ychwanegol drwy'r ECO (Gweler Pennod5). Bydd hefyd yn rhoi cyngor ac atgyfeiriadau er mwyn helpu cwsmeriaid os aiff rhywbeth o'i le nad oes modd iddo gael ei gywiro gan ddarparwr y Fargen Werdd.

7. Bydd gan y gwasanaeth cynghori staff o gynghorwyr â hyfforddiant priodol ac a fydd yn rhoi cyngor hefyd ar bynciau ehangach effeithlonrwydd ynni e.e. y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy a'r Tariff Cyflenwi Trydan. Bydd Cod Ymarfer y Fargen Werdd yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithredu o dan y cynllun roi gwybod i'w gwsmeriaid am y llinell gymorth o hirbell a'r wefan a gefnogir gan y llywodraeth. Rhaid i unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau hyrwyddo a roddir ynglâ'r Fargen Werdd gynnwys manylion cysylltu'r gwasanaeth cynghori annibynnol.

### **Cynghori ac asesu achrededig ar gyfer eiddo (Pennod 1)**

8. Asesiad cymwys (y cyfeirir ato wedi hyn fel asesiad Bargaen Werdd) ar ffabrig a dibenion adeilad (domestig ac annomestig) yw'r fynedfa i'r Fargen Werdd. Fydd dim modd gwneud trefniant cyllid o dan y Fargen Werdd na gosod unrhyw fesur o dan faner y Fargen Werdd heb asesiad Bargaen Werdd. Mae asesiad Bargaen Werdd wedi'i gynllunio i sicrhau bod y mesurau a osodir mewn adeilad yn cael eu hargymell am mai dyna'r mesurau mwyaf addas i'r adeilad hwnnw ac am eu bod yn gallu gwella perfformiad ynni a pherfformiad thermol yr adeilad yn ddigon i fod yn gymwys ar gyfer cyllid y Fargen Werdd. Mae'r broses asesu hefyd yn helpu i ddod o hyd i aelwydydd a allai fod yn gymwys i gael rhagor o gymorth o dan darged gwres fforddiadwy arfaethedig yr ECO.
9. Dim ond cynghorydd Bargaen Werdd awdurdodedig, y cyfeirir ato at ddibenion y Ddeddf Ynni a'r ddogfen hon fel aseswr Bargaen Werdd, sy'n gallu cynnal asesiad Bargaen Werdd. I gael eich awdurdodi'n aseswr Bargaen Werdd byddai angen ichi:
  - fodloni'r gofynion ynglŷn â hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer cynghorwyr y Fargen Werdd, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd
  - bod yn aelod cofrestredig o gorff ardystio sydd wedi'i achredu gan gorff achredu dethol y llywodraeth, sef Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS).
  - bod wedi'ch ardystio gan eich corff ardystio yn erbyn y safonau a'r gofynion perthnasol a nodir yng Nghod Ymarfer y Fargen Werdd.

I holl aseswyr y Fargen Werdd, byddai parhad yr awdurdodiad yn dibynnu ar gydymffurfio'n barhaus â'r rhannau perthnasol o'r Cod Ymarfer a'r gofynion ynglŷn â sicrwydd ansawdd a bennir gan eu cynllun ardystio.

10. EPC wedi'i wella fydd y dull asesu ar gyfer asesiadau'r Fargen Werdd. Caiff ei seilio ar well methodoleg ar gyfer y Weithdrefn Asesu Safonol â data cyfyngedig (RdSAP) yn y sector domestig ac adeiladu ar fethodoleg y Model Ynni Adeiladau Symlach (SBEM) yn y sector annomestig. Y ddogfen hon, ynghyd ag asesiad meddiannaeth bwrpasol ac adroddiad cryno fydd yn ffurfio Adroddiad Cyngor y Fargen Werdd (GDAR). Bydd ansawdd y GDAR a gynhrychir yn cael ei sicrhau yn unol â gofynion ardystio.
11. Rydyn ni'n disgwyl y byddai unrhyw fesur sy'n cael ei hybu a'i osod gan gyflenwyr o dan y targed Arbed Carbon o dan yr ECO wedi cael asesiad Bargaen Werdd ymlaen llaw a hwnnw wedi nodi bod y mesur yn briodol i'r eiddo. Rydyn ni'n ymgynghori hefyd ynghylch a ddylen ni wneud darpariaeth ar gyfer yr adegau prin sy'n syrthio y tu allan i gwmpas arferol yr RdSAP, lle gallai asesiad ychydig yn wahanol fod yn briodol. O dan yr amgylchiadau hyn, rydyn ni'n cynnig y byddai angen i'r cwmni ECO fodloni Gweinyddydd y cynllun fod dull asesu arall yn briodol.
12. Mae croeso yn arbennig i sylwadau ynghylch a yw'n hymagwedd at asesu adeiladau annomestig yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl adeiladau annomestig a busnesau y gallai'r Fargen Werdd fod yn berthnasol iddyn nhw.

### **Mesurau, cynhyrchion a systemau (Pennod 2)**

13. Bydd y Fargen Werdd a Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO) yn gweithio gyda'i gilydd i sbarduno gosod gwelliannau effeithlonrwydd ynni, y cyfeirir atyn nhw yn gyffredin fel "mesurau". Bydd canolbwynt y ddau yn wahanol ac o ganlyniad bydd y mesurau sy'n dod o fewn cwmpas y ddau yn wahanol hefyd.
14. Ystyr mesur yw math o welliant effeithlonrwydd ynni ar eiddo, e.e. inswleiddio walïau ceudod; ystyr cynnyrch yw'r cynnyrch ei hunan sy'n cael ei osod (ac mae'n gorfod syrthio o fewn categori o fesur), e.e. Ffeibrau Ceudod Sylfaenol ABC plc; ac ystyr system yw mesur y mae ei gydrannau'n cael eu cydosod ar y safle, e.e. systemau inswleiddio walïau allanol. Rhaid i fesur fod wedi'i gydnabod fel un sy'n gallu gwella perfformiad ynni adeilad cyn y gall gael ei ystyried o ran ei gymhwystra o dan y Fargen Werdd a'r ECO. Dim ond cynhyrchion sy'n dod o fewn categori o fesur cymwys ac a argymhellir fel rhan o asesiad Bargaen Werdd a all gael eu gosod â chyllid y Fargen Werdd neu gael cymorth yr ECO. Ceir rhestr ddrafft o'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni cymwys yn Atodiad A. Bydd faint o gyllid y Fargen Werdd sydd ar gael tuag at

fesur yn dibynnu ar gyfanswm yr amcangyfrif o arbedion ar y bil ynni y gall eu cynhyrchu: dyma egwyddor Rheol Aur y Fargen Werdd. Byddwn yn annog cwsmeriaid i gymryd pecynnau o fesurau a argymhellir o dan y Fargen Werdd.

15. Mae'r "Rhwymedigaeth Arbed Carbon" yn yr ECO wedi'i ddylunio i ganolbwyntio'n bennaf ar helpu'r aelwydydd hynny sy'n byw mewn cartrefi anodd eu cynhesu ac nad ydyn nhw'n gallu ariannu gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn llawn drwy gyllid y Fargen Werdd yn unig. Inswleiddio walïau solet yw'r dechnoleg allweddol yr ydyn ni'n rhag-weld y bydd yr ECO yn ei gefnogi. Rydyn ni'n cynnig na fydd mesurau eraill o dan y rhwymedigaeth arbed carbon yn cael eu dosbarthu fel rhai cymwys oni bai eu bod yn cael eu hybu a'u gosod fel rhan o becyn sy'n cynnwys inswleiddio walïau solet. Gwahoddir sylwadau ar y materion hyn ac yn benodol ar y polisi ynglŷn â mesurau eraill i eiddo anodd ei gynhesu.
16. O dan rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy yr ECO,<sup>5</sup> rydyn ni'n cynnig dosbarthu unrhyw fesur a fydd yn gwella perfformiad thermol eiddo, o'i fesur drwy ostyngiad yng nghost ddisgwylïedig cynhesu'r gofod neu'r dyn yr eiddo, fel mesur cymwys. Bydd o ddiddordeb gweld barn yr ymatebwyr ynghylch a ddylid pennu isafswm gofynion er mwyn sicrhau bod mesurau inswleiddio a gwresogi o bwys yn cael eu gwireddu. Y disgwyl yw mai systemau gwresogi a mesurau inswleiddio sylfaenol fydd yn cael eu cyflawni gan y cyflenwyr yn bennaf o dan y Rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy.
17. Rhaid i ansawdd y cynhyrchion a'r systemau a fydd yn cael eu gosod o dan y Fargen Werdd neu'r ECO gael ei sicrhau. Dim ond cynhyrchion sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer y Fargen Werdd a all gael eu gosod. Rydyn ni'n bwriadu sefydlu proses o haf 2012 ymlaen i weithgynhyrchwyr a chyflenwyr gadarnhau bod eu cynhyrchion yn cydymffurfio â'r Cod a'u bod yn 'barod ar gyfer y Fargen Werdd'. Bydd y cynhyrchion a'r systemau hyn yn cael eu rhestru gan Gorff Goruchwylïo'r Fargen Werdd, a fydd yn gweithredu fel gweinyddydd i'r Fargen Werdd gan oruchwylïo'r holl weithgareddau o dan y Fargen Werdd. Bydd y Corff Goruchwylïo'n archwilio sampl o gynhyrchion cofrestredig ar hap i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod ac fe allen nhw gael eu tynnu oddi ar y rhestr os gwelir nad ydyn nhw'n cydymffurfio.

---

<sup>5</sup> Yng Ngorchymyn drafft yr ECO sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon, cyfeirir at y "rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy" fel y "targed gostwng cost cynhesu cartref" neu'r "rhwymedigaeth gostwng cost cynhesu cartref". Y targed cyffredinol sydd wedi'i osod i'r holl gyflenwyr yw'r cyntaf, a chyfran y cyflenwr unigol o'r targed cyffredinol yw'r ail. Gweler erthyglau x ac y yn y gochymyn drafft.

18. Mae croeso yn arbennig i sylwadau ar gymhwysra mesurau sy'n berthnasol yn benodol i'r sector annomestig, sydd heb eu rhestru eisoes yn y gorchymyn drafft, sef Gorchymyn y Fargen Werdd (Gwelliannau Effeithlonrwydd Ynni Penodedig a Gwelliannau Ynni Cymwys).<sup>6</sup> Sylwch fod rhaid profi bod y rhai a argymhellir yn ystod y broses ymgynghori yn gallu gwella perfformiad ynni adeiladau. Materion allweddol eraill yr ydyn ni'n eu hystyried yw:
- y ffordd orau i sicrhau bod modd i arloesedd mewn mesurau newydd ac mewn gwell perfformiad mewn cynhyrchion gael ei gydnabod yn y fframwaith mesurau;
  - a ddylai targed arbed carbon yr ECO ganolbwyntio ar inswleiddio waliau solet yn unig ynteu a ddylai mesurau tebyg gael eu cefnogi,
  - a ddylen ni ganiatáu unrhyw fesur o dan darged gwres fforddiadwy yr ECO cyhyd ag y bydd yn caniatáu i'r aelwydydd cymwys gynhesu eu cartrefi'n gost-ffeithiol.
  - a ddylai perfformiad cynhyrchion gael ei gymryd i ystyriaeth yn null ariannu'r Fargen Werdd.

### **Darparwr y Fargen Werdd a Chynllun y Fargen Werdd (Pennod 3)**

19. Mae darparwr y Fargen Werdd yn aelod allweddol o daith y Fargen Werdd gan mai'r darparwr sy'n trefnu'r cyllid ac sy'n trefnu i fesurau'r Fargen Werdd gael eu gosod. Y darparwr hefyd yw'r pwynt cysylltu cyntaf ar gyfer ymholiadau gwasanaeth cwsmeriaid pan fydd y Fargen Werdd wedi'i chwblhau. I weithredu fel darparwr cyllid o dan y Fargen Werdd, rhaid i gwmni fod wedi'i awdurdodi. Bydd awdurdodiad yn cael ei roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy broses ymgeisio a fydd yn cael ei rheoli ar ei ran gan Gorff Goruchwylio'r Fargen Werdd. I gael ei awdurdodi fel darparwr Fargen Werdd, rhaid i gwmni:
- lofnodi Cod Ymarfer y Fargen Werdd a chydymffurfio ag ef;
  - lofnodi Cytundeb Trefniadau'r Fargen Werdd (GDAA)<sup>7</sup> rhwng darparwr y Fargen Werdd a'r cyflenwr trydan;
  - bod â thrwydded ddilys o dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974<sup>8</sup> (CCA) (os yw am gynnig cynlluniau ar gyfer eiddo domestig o dan y Fargen Werdd);
  - gwneud darpariaethau priodol i ddiogelu cwsmeriaid rhag ofn i ddarparwr y Fargen Werdd fynd yn fethdalwr neu golli ei drwydded;
  - sefydlu proses gymodi annibynnol briodol i helpu i ddatrys cwynion cwsmeriaid;

---

<sup>6</sup> Gweler copi o'r gorchymyn yma:

[http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/green\\_deal/green\\_deal.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/green_deal/green_deal.aspx)

<sup>7</sup> Mae copi o'r GDAA ac o God Ymarfer y Fargen Werdd ar gael yma:

[http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/green\\_deal/green\\_deal.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/green_deal/green_deal.aspx)

<sup>8</sup> Gweler <http://www.ofn.gov.uk/about-the-ofn/legal-powers/legal/cca/>

- talu'r ffioedd angenrheidiol i'r Corff Goruchwylio i gael awdurdodiad y Fargen Werdd.
20. Pan fydd asesiad y Fargen Werdd wedi'i gwblhau ar ran y cwsmer gan aseswr Bargen Werdd awdurdodedig, caiff fynd â chanlyniad yr asesiad at unrhyw ddarparwr sydd wedi'i awdurdodi o dan y Fargen Werdd i ofyn am ddyfynbris am y cyllid a'r gwaith gosod yngh ag un neu fwy o'r mesurau a argymhellwyd. Bydd dyfynbris darparwr y Fargen Werdd am osod y mesurau yn cynnwys costau'r mesurau eu hunain, y gwaith gosod, y cyllid ac unrhyw gostau perthynol eraill.
  21. Cynllun y Fargen Werdd yw'r contract sy'n bodoli rhwng darparwr y Fargen Werdd a'r sawl sydd wrthi'n gwella'r eiddo a'r sawl sy'n talu'r bil (os ydyn nhw'n wahanol) yn yr eiddo. Mae'r cynllun yn nodi telerau ariannol y cytundeb megis faint o randaliadau a thros ba gyfnod, a'r gyfradd log gymwys yn ogystal ag unrhyw rwymedigaethau eraill ar ddarparwr y Fargen Werdd neu ar y cwsmer.
  22. Bydd cynlluniau'r Fargen Werdd ar gyfer eiddo domestig yn gytundebau credyd defnyddwyr rheoleiddiedig o dan y CCA ac felly bydd angen iddyn nhw gydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y CCA. Yn ychwanegol, bydd rhaid i ddarparwr y Fargen Werdd gydymffurfio â deddfwriaeth arall sy'n diogelu defnyddwyr megis Deddf Gwerthu Nwyddau, Rheoliadau Amddiffyn Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg (CPRs) a Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr (UTCCRs). Bydd angen i ddarparwyr y Fargen Werdd sy'n dymuno darparu cyllid y Fargen Werdd o dan gytundebau credyd defnyddwyr rheoleiddiedig sicrhau trwydded o dan y CCA yn ychwanegol at gael eu hawdurdodi o dan fframwaith y Fargen Werdd. Bydd angen trwyddedau o dan y CCA hefyd ar unrhyw berson sy'n ymwneud â brocera credyd neu weithgareddau atodol eraill ynglŷn â chynlluniau'r Fargen Werdd sy'n cael eu rheoleiddio o dan y CCA, ac eithrio cyflenwyr ynni i'r graddau y maen nhw'n casglu taliadau neu ddyledion o dan y Fargen Werdd ar ran darparwyr y Fargen Werdd.
  23. Mae croeso i sylwadau ar delerau cynllun Bargen Werdd, yn enwedig a ddylai cyfnod cynllun Bargen Werdd gael ei gyfyngu i oes warantedig y mesurau sy'n cael eu gosod ac ynghylch yr amodau ar ad-dalu cyllid y Fargen Werdd yn gynnar.

#### **Y Rheol Aur (Pennod 4)**

24. Y Rheol Aur yw'r egwyddor sylfaenol sy'n sail i'r Fargen Werdd. Mae'n cyfyngu faint o gyllid y Fargen Werdd y caiff darparwr ei gynnig i'r amcangyfrif

o'r arbedion yn y bil ynni a fydd yn deillio o osod mesurau o dan gynllun y Fargen Werdd. Mae egwyddor y Rheol Aur yn helpu i sicrhau ei bod yn rhesymol i un o gwsmeriaid y Fargen Werdd ddisgwyl i'w fil ynni cyffredinol beidio â bod yn uwch nag a fuasai heb y Fargen Werdd, ar yr amod nad yw ei batrwm defnyddio ynni yn cynyddu.

25. Mae'r rheol aur yn bwysig am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'n helpu i sicrhau na ddylai cwsmeriaid y Fargen Werdd wynebu biliau ynni uwch ac na ddylen nhw felly gael anawsterau i'w talu. Yn ail, mae'n sicrhau buddsoddwyr y dylai'r risg o beidio â thalu am y Fargen Werdd fod yn debyg i'r cyfraddau cymharol isel sy'n methu ar hyn o bryd â thalu biliau trydan.
26. Mae'r rheol aur wedi'i seilio ar giplun o amcangyfrif o'r arbedion ar y bil ynni a ddisgwylir ar gychwyn cynllun y Fargen Werdd. Er hynny, dylai fod gan y cwsmeriaid ddisgwyliad rhesymol na fydd y taliad yn uwch na'r arbedion drwy gydol oes y cynllun ac felly rydyn ni'n bwriadu gosod cyfyngiadau ar sut y gall y taliad gael ei amrywio yn y dyfodol. Yn wir, bydd llawer o gynlluniau'n cynnwys symiau gosod os bydd y cyfraddau llog yn cael eu gosod. Yn ychwanegol, rydyn ni'n nodi'r hyn a all gael ei gynnwys mewn cynllun Bargaen Werdd fel rhan o gyllid y Fargen Werdd er mwyn sicrhau bod cyllid y Fargen Werdd yn cael ei ddefnyddio i osod mesurau effeithlonrwydd ynni a'r costau perthynol, yn unol â'r bwriad. Rydyn ni'n bwriadu gosod cyfyngiad ar unrhyw gynnigion ynglŷn ag arian parod ymlaen llaw a all gael eu rhoi i'r cwsmer.

### **Darparu cymorth teg a mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy'r Fargen Werdd a'r ECO (Pennod 5)**

27. Mae gan y Fargen Werdd a'r ECO ran arwyddocaol i'w chwarae i fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy helpu aelwydydd i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi ac i leihau eu costau gwresogi. Mae rhwymedigaeth gwres fforddiadwy'r ECO wedi'i dylunio i sicrhau y gall cymorth penodol gael ei roi i'r aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf am welliannau gwresogi ac inswleiddio. Bydd meini prawf arfaethedig Gwres Fforddiadwy yn sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i aelwydydd isel eu hincwm sy'n agored i effeithiau negyddol ar eu hiechyd yn sgil byw mewn cartrefi oer, ac sydd heb fath arall o gymorth o fewn cyrraedd.
28. Rydyn ni'n cydnabod y gallai system atgyfeirio helpu'r cwmnïau ynni i adnabod y rhai sy'n gymwys i gael cymorth o dan rwymedigaeth Gwres Fforddiadwy yr ECO. Rydyn ni'n bwriadu mynd ar ôl cytundeb gwirfoddol gyda'r cwmnïau i gytuno ar delerau ar gyfer dilyn atgyfeiriadau a roddir gan y Llywodraeth. Gallai atgyfeiriadau cwsmeriaid sydd wedi nodi yr hoffen nhw gael mesurau gael eu creu yn ystod proses asesu'r Fargen Werdd neu eu trosglwyddo gan y gwasanaeth cynghori annibynnol o hirbell a gefnogir gan y

Llywodraeth. Os nad yw'n bosibl dod i gytundeb gwirfoddol, mae gennyn ni'r opsiwn o gyfarwyddo cwmnïau i roi cymorth i aelwydydd penodol.<sup>9</sup>

29. Gan fod y cyflenwyr yn debyg o adennill cost gwireddu'r ECO drwy filiau'r defnyddwyr, mae'n bwysig ystyried sut y caiff manteision y rhwymedigaeth eu dosbarthu, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei wireddu â mesur rhesymol o degwch. Gweler adran 5.3 i weld rhagor o drafodaeth ar degwch o dan yr ECO.

### **Cydsynio, datgelu a chydabod (Pennod 6)**

30. Cyn y gall y Fargen Werdd fynd yn ei blaen, rhaid sicrhau'r cydsyniadau perthnasol i'r mesurau gael eu gosod ac i daliad y Fargen Werdd gael ei gynnwys ym mil trydan yr eiddo. Bydd angen sicrhau cydsyniad ar gyfer y taliad oddi wrth y sawl sy'n talu'r bil trydan a pherchennog yr eiddo (os ydyn nhw'n wahanol). Bydd pwy sy'n gorfod rhoi cydsyniad i'r mesur yn amrywio yn ôl yr eiddo a'r math o fesurau sy'n cael eu gosod, ond fe allan nhw gynnwys y perchennog, y rhydd-ddeiliad, a'r awdurdod cynllunio lleol. Darperir fframwaith gwneud iawn at amgylchiadau lle na fydd y cydsyniadau i osod y mesurau wedi'u sicrhau. Pan fydd mesurau'r Fargen Werdd wedi'u gosod ac wedi'u cymeradwyo, bydd darparwyr y Fargen Werdd yn rhoi dogfen cynllun y Fargen Werdd ac EPC newydd i'r cwsmer.
31. Wrth i eiddo newid dwylo dros amser, bydd y cyfrifoldeb dros dalu taliad y Fargen Werdd yn newid hefyd. Rydyn ni'n bwriadu hwyluso'r newid hwn drwy ddatgelu cynllun y Fargen Werdd i'r sawl fydd yn talu'r biliau yn y dyfodol drwy gyfrwng yr EPC. Bydd yr EPC yn cynnwys gwybodaeth ariannol allweddol am y Fargen Werdd. Cyhyd ag y bydd bodolaeth Bargaen Werdd wedi'i datgelu mewn modd priodol i'r person newydd sy'n talu'r bil, bydd y rhwymedigaeth i dalu am y Fargen Werdd yn trosglwyddo iddo yn awtomatig.
32. Dylai'r datgelu ddigwydd cyn gynted ag y bo modd, ond yn wastad cyn i'r sawl a allai fod yn talu'r bil wneud cytundeb cyfrwymol i ymgymryd â'r eiddo. Rydyn ni'n adeiladu ar reoliadau'r EPB ynghyd â datgelu'r Fargen Werdd, er mwyn sicrhau bod y sawl a allai fod yn talu'r bil yn gweld manylion y Fargen Werdd ar yr eiddo mewn da bryd i ddylanwadu ar ei benderfyniad. Ran amlaf, bydd hynny'n golygu'r adeg y bydd rhywun yn trefnu gweld yr eiddo.
33. Ar ben datgelu, bydd angen i'r person sydd, er enghraifft, yn gwerthu neu'n gosod yr eiddo sicrhau cydnabyddiaeth ysgrifenedig bod y person sy'n

---

<sup>9</sup> Gweler yr is-adran (5)(bc) newydd sydd wedi'i mewnosod yn adran 33BC o Ddeddf Nwy 1986 ac adran 41A o Ddeddf Trydan 1989 gan adran 65 a 66 o Ddeddf Ynni 2011.

ymgymryd â'r eiddo yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb dros dalu am y Fargen Werdd ac o delerau'r cynllun. Rydyn ni'n rhag-weld y bydd hyn yn deler safonol mewn cytundebau i brydlesu neu i werthu, neu mewn dogfennau perthynol sy'n ffurfio rhan o'r cytundebau hyn, ac rydyn ni'n gweithio gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol i wneud hyn.

34. Mae'n bosibl y byddai rhywun sy'n dechrau talu bil yn dymuno herio a dweud nad oedd taliad y Fargen Werdd wedi'i ddatgelu'n iawn iddo. O dan yr amgylchiadau hyn, y cynnig yw y byddai'n rhaid iddo barhau i wneud y taliadau tra byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal a thra byddai sylwadau'n cael eu gwneud. Gall y cwsmer herio'i rwymedigaeth i dalu taliad y Fargen Werdd am resymau yngŵn â pheidio â'i ddatgelu, neu am fod telerau'r cynllun heb gael eu datgelu'n fanwl-gywir. Os yw hynny'n briodol, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'w orchymyn i'r cynllun gael ei ddileu, i orchymyn ad-dalu rhandaliadau'r cynllun yn sgil peidio â'i ddatgelu ac i orchymyn bod rhaid i'r sawl oedd yn talu'r bil yn wreiddiol ac a fethodd â datgelu'r cynllun dalu iawndal i ddarparwr y Fargen Werdd am gostau ad-dalu'n gynnar.
35. Mae croeso i sylwadau ynghylch a yw'n gofynion yngŵn â thaliadau'r Fargen Werdd a'r mesur yn ddigon o amddiffyniad i'r partïon i'r Fargen Werdd ac a yw'n hymagwedd at dorri cydsyniad yn deg. Dywedwyd wrthon ni y gallai'r gofyniad bod rhaid sicrhau cydsyniad sawl parti i'r Fargen Werdd fod yn rhwystr a fyddai'n atal rhai mathau o eiddo rhag cael eu cynnwys yn y Fargen Werdd. Oherwydd hyn rydyn ni wedi cynnwys galwad am dystiolaeth ar rwystrau sy'n atal cydsyniad ac rydyn ni'n croesawu sylwadau ehangach ar y tebygrwydd y bydd rhwystrau yn deillio o'r angen i sicrhau cydsyniad ar gyfer taliad neu fesur o dan y Fargen Werdd, ynghyd â thystiolaeth y mae'r rhanddeiliaid yn teimlo y dylai gael ei chymryd i ystyriaeth. Rydyn ni hefyd yn awyddus i ddeall y cyfle sydd yna ar gyfer atebion gwirfoddol, heb ymyrraeth, i'r rhwystrau sy'n atal cydsyniad, ac yn croesawu syniadau a sylwadau ar hyn.

### **Gosodwyr Achrededig (Pennod 7)**

36. Pan fydd asesiad awdurdodedig o dan y Fargen Werdd wedi'i gynnal ar eiddo, pan fydd y cyllid at y mesurau wedi'i gymeradwyo a phan fydd y cydsyniadau angenrheidiol wedi'u sicrhau, y gwaith gosod yw'r cam nesaf. Er mwyn i'r Fargen Werdd a'r ECO gyrraedd eu hamcanion, mae'n hanfodol bod gwaith gosod yn cael ei wneud yn unol â safonau uchel a hynny gan osodwyr sydd wedi'u hyfforddi, ac sydd wedi sicrhau cymwysterau ac achrediad, sef gosodwyr y cyfeirir atyn nhw wedi hyn fel gosodwyr Bargaen Werdd 'awdurdodedig'.



37. Rydyn ni'n cynnig ei gwneud yn ofynnol i osodwr fod wedi'i awdurdodi er mwyn gweithio o dan y Fargen Werdd a'r ECO a bod wedi'i ardystio fel un sy'n bodloni safon newydd i osodwyr y Fargen Werdd. Bydd angen i'r gosodwyr feddu ar Nod Ansawdd y Fargen Werdd, ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn dros ansawdd eu gwaith a chydymffurfio â'r gofynion perthnasol yng Nghod Ymarfer y Fargen Werdd.
38. Mae Sefydliad Safonau Prydain (BSI) wrthi'n datblygu safon gosodwr i'r Fargen Werdd gyda'r sector, a disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn gynnar yn 2012. Bydd safon y gosodwr yn dwyn ynghyd safonau sydd eisoes yn bod mewn un man er mwyn sicrhau gwell eglurder ac ymagwedd gyson yn ogystal â lefelau cadarn o waith monitro a chydymffurfio.
39. Fel yn achos aseswyr y Fargen Werdd, rydyn ni'n cynnig rhoi safon gosodwyr y Fargen Werdd ar waith drwy gyrrff ardystio gyda golwg ar leihau'r beichiau a'r costau drwy ddefnyddio'r strwythurau presennol. I sicrhau bod y safon newydd yn cael ei defnyddio mewn modd cadarn a chyson, rydyn ni wedi penodi UKAS fel y corff a'r trydydd parti annibynnol a fydd yn achredu'r cyrrff ardystio. Ar ôl cael eu hachredu, y cyrrff ardystio fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gosodwyr yn cyrraedd safon y Fargen Werdd ac yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.
40. Rydyn ni'n cynnig y dylai holl osodiadau'r Fargen Werdd a'r ECO gael eu seilio ar gynllun yswiriant cynhwysfawr a ategir â gwarannoedd, gwarantiadau a gweithdrefnau gwneud iawn rhag ofn i rywbeth fynd o'i le.

### **Casglu taliadau (Pennod 8)**

41. Un gydran sylfaenol o'r Fargen Werdd yw y dylai ad-daliadau gael eu casglu drwy filiau ynni. Mae hyn yn caniatáu i'r taliad gael ei drosglwyddo'n awtomatig ac yn caniatáu inni adeiladu ar yr amddiffynfeydd presennol sydd ar gael i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed pan gân nhw anhawster i dalu eu biliau. Yr egwyddor sylfaenol rydyn ni wedi'i mabwysiadu yw y dylai'r mecanwaith casglu taliadau fod yn rhan annatod o'r bil ynni cyffredinol ac ymgorffori'r holl ofynion ac amddiffynfeydd presennol. I helpu i sicrhau bod cost ariannu'r Fargen Werdd mor isel â phosibl, caiff y taliadau eu casglu oddi wrth y cwsmer drwy gyfrwng taliad ar ei fil trydan. Mae hyn yn symlach i'w roi ar waith am fod bron pob aelwyd ar y grid trydan er bod yna lawer nad ydyn nhw'n perthyn i'r grid nwy. Mae hefyd yn helpu i amddiffyn defnyddwyr sy'n agored i niwed ac mae wedi'i fwriadu i sicrhau bod y risg o beidio â thalu taliad y Fargen Werdd yn cyd-fynd mor agos ag y bo modd â'r risg o beidio â thalu sydd wedi bod yn isel yn hanesyddol.

42. Pan fydd taliad y cwsmer wedi dod i law, bydd yn ofynnol i'r cyflenwyr basio'r arian ymlaen ar sail *pari passu*, neu sail gyfrannol, i ddarparwr y Fargen Werdd. Bydd ad-daliadau'r Fargen Werdd i'w gweld ar fil trydan y cwsmer fel taliad ar wahân. Ran amlaf, fydd hyn ddim yn effeithio ar pa mor aml y mae'r cwsmer yn cael ei fil neu ei ddatganiad trydan. Bydd cwsmeriaid sydd â mesurydd i dalu ymlaen llaw hefyd yn cael manteisio ar y Fargen Werdd drwy gael casglu ei taliad drwy gyfrwng y swyddogaeth ôl-ddyledion sydd gan y mesuryddion cyfoes. Rydyn ni'n bwriadu defnyddio'r datganiad trydan blyneddol y mae cwsmeriaid domestig yn ei gael i gyfleu gwybodaeth am gyfanswm taliadau'r Fargen Werdd sydd i'w talu dros y flwyddyn nesaf, a'r arbedion ynni tebygol a nodwyd yn asesiad y Fargen Werdd. Bydd hyn yn ychwanegol at y datganiad credyd blyneddol a fydd yn cael ei roi gan ddarparwr y Fargen Werdd.
43. Fel rhan o ymroddiad y Llywodraeth i hybu cystadleurwydd yn y farchnad ynni fanwerthol, rydyn ni'n cynnig cyflwyno'r opsiwn o ymuno i gyflenwyr trydan bach. Hynny yw, fydd hi ddim yn ofynnol i gyflenwyr trydan sydd â llai na 250,000 o gwsmeriaid domestig ac annomestig gasglu taliad y Fargen Werdd. Os byddan nhw am resymau masnachol yn penderfynu eu bod am ymuno â mecanwaith casglu'r Fargen Werdd, fe gân nhw nweud hynny.
44. Rydyn ni'n cynnig y dylai'r holl rwymedigaethau presennol o ran dyledion a datgysylltu sy'n cael eu gosod ar gyflenwyr trydan drwy amodau eu trwydded gael eu hymestyn i gynnwys taliad y Fargen Werdd er mwyn amddiffyn defnyddwyr sy'n agored i niwed.

### **Cyflawni'r Fargen Werdd a'r ECO (Pennod 9)**

45. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y Fargen Werdd a'r ECO yn aml yn gweithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae mesurau sy'n arbed llawer o garbon ac yn sicrhau manteision sylweddol o ran effeithlonrwydd ynni, megis inswleiddio waliau solet, yn rhy ddrud i gael eu cyflawni o dan y Rheol Aur yn unig.<sup>10</sup> Gan hynny bydd yna gymhelliant i ddarparwyr y Fargen Werdd chwilio am gyfraniadau at fesur oddi wrth gyflenwyr sy'n ceisio cyflawni eu rhwymedigaethau o dan yr ECO. Mae hyn yn debyg o ddod â chost net y mesur i mewn i delerau'r Rheol Aur, gan ganiatáu felly i ddarparwr Fargen Werdd roi cynnig mwy deniadol i'r cwsmer a chynyddu nifer y cynigion y mae'n gallu eu gwneud o dan y Fargen Werdd.

---

<sup>10</sup> Er enghraifft, byddai inswleiddiad waliau solet a fyddai'n sicrhau arbediad blyneddol o £320 yn gallu codi £3,730 o gyllid y Fargen Werdd (ar sail cyfradd log o 7% a chyfnod ad-dalu o 25 mlynedd). Petai'r inswleiddiad waliau solet yn costio tua £6,000, byddai angen £2,270 o gymorth yr ECO at y mesur er mwyn bodloni'r Rheol Aur.

46. Rydyn ni'n cynnig y dylai'r cyflenwyr ynni gael credyd am fanteision llawn yr arbedion carbon neu'r arbedion cost yn sgil pob mesur y maen nhw'n rhan o'u hybu a'u gosod. Rydyn ni'n disgwyl i hynny greu cymhelliant i gyflenwyr ynni ddod o hyd i ddarparwyr Bargaen Werdd y gallan nhw ddatblygu cynigion gyda nhw sy'n dibynnu ar gymysgedd o gyllid yr ECO a chyllid y Fargen Werdd. Gan y bydd cyflenwyr ynni am fodloni eu rhwymedigaeth am gost mor isel â phosibl, fe fydd ganddyn nhw gymhelliant i ysgogi cynifer â phosibl o fathau eraill o gyllid. Yn achos y rhwymedigaeth Arbed Carbon y disgwyl yw mai cyllid y Fargen Werdd yn bennaf fydd hyn, er bod ffynonellau eraill yn bosibl hefyd. Mae caniatáu credyd am yr arbedion carbon llawn fel hyn hefyd yn creu cymhelliant i hybu pecynnau sy'n gymwys i gael pwyntiau ECO uwchlaw pecynnau nad ydyn nhw'n gymwys.
47. Ar gyfer marchnad effeithlonrwydd ynni agored a chystadleuol mae'n hanfodol bod y cyfle i gael cymorth o dan yr ECO mor dryloyw, effeithlon a chost-effeithiol â phosibl. I wneud hyn, rydyn ni'n cynnig cyflwyno ateb sydd wedi'i seilio ar y farchnad, sef brocera, i helpu cyflenwyr ynni i drefnu bod cyfran sylweddol o'u cymorth ECO ar gael yn eang i'r asiantau cyflawni hynny a all ymrwymo i gyflawni pethau mewn ffordd gost-effeithiol.
48. Mae rôl yr awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill hefyd yn debyg o fod yn holl-bwysig i sicrhau bod yr ECO a'r Fargen Werdd yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn ddwys mewn ardaloedd penodol. Rydyn ni'n credu y bydd llawer o gymhellion naturiol yn rhoi hwb i ffurfio partneriaethau effeithiol, ac na fydd angen gofynion rheoleiddio penodol. Mae gan agenda'r Gymdeithas Fawr hefyd y potensial i ategu partneriaethau lleol.

### **Amddiffyn defnyddwyr (Pennod 10)**

Bydd amddiffyn defnyddwyr a hyder busnesau yn y Fargen Werdd hefyd yn ganolog ym mhob cyfnod. Bydd defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn drwy gydol proses y Fargen Werdd. Mae'r bennod hon yn rhoi golwg gyffredinol ar yr amddiffynfeydd hyn, sy'n cael eu trafod yn fanylach yn y Penodau perthnasol. Os bydd rhywbeth yn mynd o chwith i'r defnyddiwr, bydd dulliau clir a hygyrch i ganiatáu iawn yn hanfodol i gynnal yr amddiffynfeydd hyn.

Ceir dau brif faes lle y gallai rhywbeth fynd o chwith yn y Fargen Werdd. Y cyntaf yw pan geir problem ynglŷn â'r gwaith gosod, y mesurau sydd wedi'u gosod neu delerau cynllun y Fargen Werdd. Yn y ddau achos, darparwr y Fargen Werdd sy'n gyfrifol am geisio cywiro'r broblem. Os oes angen hynny, bydd darparwyr y Fargen Werdd yn talu iawndal i'r cwsmer ac yn ceisio cael iawn gan eu gosodwyr neu eu haseswyr drwy gcontractau masnachol. Os gwelir bod un o ddarparwyr, aseswyr neu osodwyr y

Fargen Werdd wedi torri amodau cynllun awdurdodi'r Fargen Werdd, gan gynnwys y cod ymarfer, gall yr Ysgrifennydd Gwladol osod sancsiynau.

Yr ail yw pan fydd cwsmeriaid i ddarparwyr y Fargen Werdd yn gyfrifol am anghydfodau, pan fyddan nhw eu hunain heb fodloni eu rhwymedigaethau. Os nad yw pobl wedi bodloni'r rhwymedigaethau hyn, gall yr Ysgrifennydd Gwladol osod sancsiynau yn eu herbyn a sicrhau y gall y sawl sydd wedi dioddef geisio iawn.

Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod sancsiwn am beidio â chydymffurfio â rhwymedigaethau'r Fargen Werdd, bydd hawl i apelio yn ei erbyn.

### **Gosod yr ECO a'r mesuriadau targed (Pennod 11)**

49. Bydd lefel gyffredinol uchelgais yr ECO, o edrych ar y ddau amcan o arbed carbon a sicrhau gwes fforddiadwy, yn cael ei gosod ar lefel sy'n cyfateb i £1.3 biliwn y flwyddyn, a bydd hyn yn cael ei droi'n rhwymedigaethau i bob cyflenwr ECO o dan bob amcan dros oes y cynllun. Mae dau amcan yr ECO yn wahanol i'w gilydd yn yr ystyr bod ar y naill a'r llall ei fesuriad targed ei hunan. Dyma sy'n cael ei gynnig:
  - y bydd targed cyffredinol Arbedion Carbon yn defnyddio mesuriad sydd wedi'i seilio ar y tunelli blynyddol o ostyngiadau CO<sub>2</sub>; ac y dylai hyn gael ei osod ar lefel o 0.52MtCO<sub>2</sub> y flwyddyn erbyn 2015 (o dan senario sy'n cyfateb i 1.95MtCO<sub>2</sub> y flwyddyn yn 2022)
  - y bydd targed cyffredinol Gwres Fforddiadwy yn defnyddio mesuriad sydd wedi'i seilio ar ostyngiadau mewn costau gwresogi am oes; ac y dylai hyn gael ei osod ar lefel o ostyngiad o £3.4 biliwn mewn costau gwres syniannol dros oes yn achos aelwydydd isel eu hincwm ac aelwydydd sy'n agored i niwed erbyn 2015.
50. Bydd cyflenwyr yn ennill credydau tuag at eu rhwymedigaethau am bob pecyn o fesurau cymwys<sup>11</sup> a fydd yn cael ei osod. Bydd sgoriau i eiddo penodol yn cael eu cyfrifo drwy fethodoleg SAP neu RdSAP tebyg i'r fethodoleg a ddefnyddir yn asesiadau'r Fargen Werdd a bydd y sgoriau'n adlewyrchu'r gostyngiadau carbon sydd wedi'u modelu a'r gostyngiadau mewn costau gwresogi.
51. Rydyn ni'n cynnig y dylai'r rhwymedigaeth gael ei gosod ar gyflenwyr ynni mawr, sydd wedi'u diffinio fel y rhai sydd â mwy na 250,000 o gyfrifon cwsmeriaid nwy a thrydan. Bydd hyn yn osgoi dod â rhwystrau i'r farchnad a fyddai'n atal cwmnïau ynni bach sy'n disgwyl tyfu.

---

<sup>11</sup> Y cyfeirir atyn nhw yn Ngorchymyn drafft yr ECO fel "cam cymwys".

52. Un mater allweddol o dan yr ECO yw penderfynu ar faint y targed cyffredinol. Mae lefelau uwch o uchelgais o dan yr ECO yn golygu mwy o gostau i'r cwmnïau ynni ac felly mwy o gostau i bawb sy'n talu biliau. Y cynnig at ddibenion ymgynghori yw ein hasesiad ni o'r cydbwysedd gorau sydd i'w daro yn hyn o beth. O fewn hyn, byddem yn croesawu sylwadau ar y mesuriadau a'r dull sgorio arfaethedig, gan gynnwys a ddylai sgoriau'r ECO gael eu mynegi ac a ddylai'r targedau gael eu pennu, yn nhermau mesur blynyddoedd ynteu mesur oes o arbedion. Rydyn ni hefyd yn gwahodd sylwadau ynghylch a fyddai symud at gyfrifo rhwymedigaethau ar sail cyflenwad-cyfaint, yn hytrach nag ar sail cyfrifon cwsmeriaid, yn creu effeithiau manteisiol. Mae croeso hefyd i dystiolaeth gan yr ymgynghoreion am yr hyn a fyddai'n effeithio ar waith i amcangyfrif costau a buddion y targedau arfaethedig, fel y maen nhw wedi'u nodi yn nhaflen grynodedb yr Asesiad Effaith.

### **Monitro a Chlориannu'r Fargen Werdd, a Gweinyddu'r ECO (Pennod 12)**

53. Rydyn ni'n cynnig deddfu er mwyn sicrhau bod gennyn ni'r wybodaeth angenrheidiol i fonitro a chlориannu gwaith ac effaith polisïau'r Fargen Werdd a'r ECO.
54. Rydyn ni'n cynnig bod rhaid i weithred y mae cwmni ynni'n bwriadu iddo gyfrif tuag at eu rhwymedigaeth gael ei mynegi i'r Gweinyddydd yn ystod y mis ar ôl i'r gosodiad gael ei gwblhau. Bydd yn ofynnol hefyd i'r cyflenwyr roi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol am y costau y mae'r cyflenwyr ynni wedi'u hysgwyddo wrth fodloni eu rhwymedigaethau, er na fydd gennyn ni bwerau i fynnu gwybodaeth am sut mae'r arian wedi'i godi. Rydyn ni hefyd yn bwriadu sicrhau bod adroddiadau blynyddol cyhoeddus am gynnydd y cynllun yn cael eu cynhyrchu.
55. Ofgem yw'r Gweinyddydd penodedig, ond erbyn hyn mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ŵer i benodi person arall yn Weinyddydd. Bydd gweinyddu'r cynllun mewn modd effeithlon ac effeithiol yn helpu i sicrhau ei fod yn rhedeg yn llyfn gan leihau costau'r gorbenion i'r cyflenwyr ynni ac, yn eu tro, y costau sy'n cael eu trosglwyddo i'r defnyddwyr. Bydd y Gweinyddydd yn monitro'r cydymffurfio â rheolau'r cynllun, gan sicrhau bod yr arbedion carbon a'r arbedion ar filiau ynni yn ddilys.
56. Yn achos rhwymedigaethau'r presennol a'r gorffennol, gan gynnwys CERT a CESP, Ofgem sydd wedi chwarae rhan y Gweinyddydd bob tro. Er hynny, daeth Adolygiad Cyflawni DECC ym mis Mai 2011 i'r casgliad mai DECC a ddylai arwain y gwaith i gyflawni rhaglenni newydd oni bai bod yna achos clir

dros roi'r cyfrifoldeb dros eu cyflawni i gorff penodol, gan drefnu hynny'n allanol lle bo'n briodol.<sup>12</sup>

57. Gan hynny, gwahoddir yr ymgynghoreion i roi eu barn ar y ddau ddewis a ganlyn o ran pwy ddylai weinyddu'r ECO:
- Opsiwn i - Ofgem yw'r Gweinyddydd.
  - Opsiwn ii – DECC yn cael ei benodi'n Weinyddydd, ond yn trefnu'r swyddogaethau technegol yn allanol.

### Y dogfennau perthynol: y materion allweddol

58. **Y Cod Ymarfer i aseswyr, gosodwyr a darparwyr:** mae croeso i sylwadau ynghylch pa mor eglur a chadarn yw cod ymarfer y Fargen Werdd, sy'n nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i aseswyr, gosodwyr, darparwyr a chynhyrchion a systemau gadw atyn er mwyn cael gweithredu o dan faner y Fargen Werdd. Rydyn ni'n chwilio am sylwadau ar y canlynol yn benodol:
- y gofynion ynglŷn ag awdurdodi aseswyr, gosodwyr a darparwyr.
  - gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd, monitro a thrafod cwynion
  - y gofynion ynghylch darparu gwarantiadau sydd wedi'i seilio ar yswiriant.
59. **Diwygio trwyddedau, newid cytundeb y diwydiant a Cytundeb Trefniadau'r Fargen Werdd (GDAA):** Rydyn ni'n cynnig sefydlu'r mecanwaith ar gyfer casglu taliadau a throsglwyddo taliadau drwy gyfuniad o newidiadau yn y drwydded cyflenwi trydan, y drwydded cyflenwi nwy, y drwydded dosbarthu trydan, y Prif Gytundeb Dosbarthu a'r Cytundeb ar Ddefnyddio'r System Dosbarthu a Chysylltu a sefydlu GDAA rhwng cyflenwyr trydan a darparwyr y Fargen Werdd. Rydyn ni'n croesawu sylwadau ar y diwygiadau drafft i'r trwyddedau, y newidiadau drafft yng nghytundeb y diwydiant a'r GDAA drafft.
60. **Asesiad Effaith y Fargen Werdd a'r ECO (IA):**<sup>13</sup> mae'r asesiad effaith yn cyfuno amrywiaeth o dystiolaeth a rhagdybiaethau. Rydyn ni'n awyddus i gael ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n cryfhau'r gronfa o dystiolaeth o blaid y Fargen Werdd a'r ECO er mwyn caniatáu i'r amcangyfrif o effeithiau'r polisïau gael ei fireinio. Mae croeso i ragor o dystiolaeth am y potensial ar gyfer defnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni, a'r costau a'r buddion tebyg a

---

<sup>12</sup> <http://www.decc.gov.uk/assets/decc/about%20us/1656-delivery-review.pdf>

<sup>13</sup> Gweler copi o'r Asesiad Effaith yma:  
[http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/green\\_deal/green\\_deal.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/green_deal/green_deal.aspx)

fyddai'n gysylltiedig â nhw, yn ogystal ag effeithiau eraill sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau polisi manwl ynghylch yr ECO a'r Fargen Werdd.

61. Yn ychwanegol at y materion penodol hyn a'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn drwy'r ddogfen ymgynghori a'r asesiad effaith, mae croeso hefyd i sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion.

# Catalog o'r cwestiynau ymgynghori

## Pennod 1: Aseu

1. Ydych chi'n teimlo bod y gofynion arfaethedig ynghylch aseswyr y Fargen Werdd a nodwyd ym mhrif gorff y testun ac yn Atodiad A o'r Cod Ymarfer yn ddigon clir a chadarn i gynnal asesiadau'r Fargen Werdd?
2. Allwch chi feddwl am unrhyw ofynion y bydd ar aseswyr y Fargen Werdd eu hangen ond sydd heb eu cynnwys yn yr ymagwedd a awgrymwyd, sy'n cyfuno'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ac Achredu Dysgu Blaenorol drwy Brofiad (APEL)?
3. Wrth gynnig caniatáu i'r farchnad bennu tâl aseswyr a chostau aseu, oes yna ofynion eraill y dylen ni eu gosod ar aseswyr neu ddarparwyr o ran (a) tâl aseswyr, (b) cost yr asesiad, neu (c) datganiadau gan yr aseswr?
4. Ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd arfaethedig at sicrwydd trydydd partïon a gorfodi cydymffurfiaeth yn achos y rhai sy'n darparu asesiadau'r Fargen Werdd?
5. A ddylai cyfnod dilysrwydd presennol yr EPC ar gyfer trafodion eiddo gael ei ddefnyddio at ddibenion y Fargen Werdd neu ydy cyfnod dilysrwydd byrrach yn debycach o ateb anghenion proses y Fargen Werdd?
6. Ydych chi'n credu y bydd yr ymagwedd at nodi ac aseu adeiladau annomestig, ar sail gofynion a dulliau'r Tystysgrifau Perfformiad Ynni, yn cynnwys yr holl adeiladau annomestig a'r holl sectorau busnes y mae'r Fargen Werdd yn berthnasol iddyn nhw?
7. Oes yna ddewisiadau eraill yn lle'r ymagwedd syml at ddarparu arbedion ar gostau rhedeg yn yr asesiad annomestig y dylen ni eu hystyried?



## Pennod 2: Mesurau, cynhyrchion a systemau

- |     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 8.  | Pa fesurau a ddylai gael eu hychwanegu at y rhestr o fesurau cymwys yn Atodiad A ar gyfer eiddo annomestig, a pha dystiolaeth sydd yna fod y mesurau hyn yn gwella perfformiad ynni adeiladau?                                                                                                                                                                                    |
| 9.  | A fydd proses bresennol Atodiad Q, sy'n caniatáu i fesurau newydd gael eu hychwanegu at ddulliau asesu'r Fargen Werdd, ac at y rhestr o welliannau cymwys, yn ategu arloesedd yn y farchnad a sut gallai'r broses gael ei gwella? Yn benodol, pa gymorth a allai fod o fantais i SMEs?                                                                                            |
| 10. | Pa ffyrdd arloesol a all gael eu defnyddio gan y llywodraeth i annog pobl i ymgymryd â phechyn o fesurau ac a allai'n cynigion presennol ni ategu hyn?                                                                                                                                                                                                                            |
| 11. | Rhowch sylwadau ar y potensial ar gyfer cynnwys ceudodau anodd eu trin (ac o bosibl mesurau eraill o fath tebyg), a chynigion ar sut y gallai eiddo gael ei gynnwys yn yr ECO heb ormod o gymhlethdod a heb ganlyniadau sy'n mynd yn groes i'r bwriad.                                                                                                                            |
| 12. | Rydyn ni'n cynnig y dylai rhwymedigaeth Arbed Carbon yr ECO gael i gwireddu'n bennaf drwy hybu a gosod inswleiddiad mewn waliau solet. A ddylai mesurau eraill gael eu cefnogi, a sut byddai'r rheiny'n cael eu diffinio?                                                                                                                                                         |
| 13. | Ar gyfer rhwymedigaeth Arbed Carbon yr ECO, rydyn ni'n cynnig na ddylai mesurau arbed carbon eraill fod yn gymwys heblaw o'u cyflawni fel rhan o becyn sy'n cynnwys inswleiddio waliau solet. Oes gennych chi awgrymiadau ar y meini prawf a ddylai gael eu defnyddio i gyfyngu pecynnau, gan esbonio pam rydych chi'n credu y dylai unrhyw gyfyngiadau o'r fath gael eu cynnwys? |
| 14. | Rydyn ni'n cynnig y dylai <i>unrhyw fesur</i> gael ei ganiatáu o dan y rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy, ar yr amod ei fod yn caniatáu i'r aelwydydd cymwys gynhesu eu cartrefi mewn modd mwy fforddiadwy. Os ydych yn anghytuno, neu yn teimlo bod yr ymagwedd hon yn creu risgiau, esboniwch a nodwch unrhyw gyfyngiadau yr ydych chi'n credu y dylen nhw gael eu cynnwys.       |
| 15. | Oes gennych chi awgrymiadau ynghylch a ddylen ni sgorio, a sut y dylen ni sgorio,                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |

gwaith trwsio bwyleri o dan y Rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy, fel bod modd hybu gwaith trwsio os yw hynny'n fwy cost-efeithiol na systemau newydd, heb gael effaith arwyddocaol ar effeithlonrwydd?

16 Rydyn ni'n cynnig y dylai unrhyw fesurau gwresogi gael eu caniatáu o dan y rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy, gan gynnwys i aelwydydd nad ydyn nhw ar y grid nwy, ac y dylai cymhellion ychwanegol gael eu creu ar gyfer pypmïau gwres o'r awyr neu bympïau gwres o'r ddaear. Oes gennych chi dystiolaeth i'w chynnig ynghylch perfformiad pypmïau gwres i wella gallu aelwydydd agored i niwed i gynhesu eu cartrefi mewn modd fforddiadwy?

17. I ba raddau y gall y rhestrau cynhyrchion presennol, megis y rhestr o gynhyrchion sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu gael eu defnyddio'n fan cychwyn i restr cynhyrchion y Fargen Werdd?

18. Ydych chi'n cytuno bod caniatáu i well perfformiad cynnyrch gael ei gydnabod ym mecanwaith ariannu'r Fargen Werdd yn ddefnyddiol? Oes gennych chi sylwadau penodol am sut y gallai'r ymagwedd hon gael ei rhoi ar waith?

### **Pennod 3: Darparwr y Fargen Werdd a'r Cynllun**

19. Ai bondiau mechnïaeth yw'r ffordd fwyaf effeithiol, effeithlon i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu hamddiffyn petai un o ddarparwyr y Fargen Werdd yn mynd yn ansolfent neu'n colli ei drwydded. Pa safonau gofynnol a ddylai gael eu gosod ynghylch bondiau mechnïaeth y Fargen Werdd a faint o yswiriant y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr y Fargen Werdd ei godi?

20. Ydy'n hymagwedd arfaethedig at awdurdodi a goruchwylio darparwyr y Fargen Werdd yn sicrhau'r safonau angenrheidiol o amddiffyniad i ddefnyddwyr ac iawn priodol heb greu rhwystrau a fyddai'n atal darparwyr rhag ymuno â'r farchnad?

21. Faint o bwysau a ddylai gael ei roi ar y ddadl dros osod y cyfrifoldeb dros daliadau hwyr yn nwylo'r talai?

22. Beth yw'ch barn chi ar gynnig y Llywodraeth y dylid ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr y Fargen Werdd gynnig gwarannoedd sydd wedi'u seilio ar yswiriant drwy gydol y cyfnod ad-dalu? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn.

23. Beth yw'r barn chi ar gynigion y Llywodraeth ynghylch newidiadau yn y Ddeddf

Credyd Defnyddwyr ar gyfer cynlluniau'r Fargen Werdd?

24. Beth yw'r barn chi ar gynigion y Llywodraeth ynghylch amddiffynfeydd i ddefnyddwyr yn achos y Cytundebau hynny nad ydyn nhw'n dod o dan y CCA?

#### Chapter 4: The Golden Rule

25. A oes angen rhoi amddiffynfeydd a chysur ychwanegol i ddefnyddwyr pan fyddan nhw'n codi cynlluniau Bargen Werdd uwchlaw £10,000? Os oes, ydy'r amddiffyniad arfaethedig o leihau'r amcangyfrif o'r arbedion yn briodol ac ai'r ffigur o 5% yw'r addasiad cywir?

26. Ydych chi'n cytuno â'r ymagwedd at y taliad ym Mlwyddyn Un a all gael ei defnyddio mewn cynllun Bargen Werdd?

27. Beth fyddai manteision caniatáu i ddarparwyr y Fargen Werdd amrywio'r llogau ar gynllun Bargen Werdd yn unol â'r gydran fwyaf priodol yn y mynegai tanwydd a golau?

28. Ydych chi'n cytuno â'r ymagwedd arfaethedig at sut y gall y taliad amrywio ym mlynnyddoedd dilynol cynllun Bargen Werdd?

29. A ydy £150 neu 5% o gyfanswm pecyn y Fargen Werdd (p'un bynnag yw'r lleiaf) yn defyn priodol ar faint o gymhellion arian parod a all gael eu cynnig gan ddarparwyr y Fargen Werdd?

30. Ydych chi'n cytuno bod ein hymagwedd arfaethedig at egwyddor y Rheol Aur yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng sicrhau bod y dulliau priodol i amddiffyn defnyddwyr yn eu lle heb lesteirio uchelgais yn ormodol a buddsoddi yn y Fargen Werdd?

#### Pennod 5: Darparu cymorth teg a mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy'r Fargen Werdd a'r ECO

31. Ydych chi'n cytuno y dylai'r cymhwysra ar gyfer mesurau Gwres Fforddiadwy gael ei gyfyngu i aelwydydd sy'n cael y budd-daliadau a'r credydau treth yn yr un modd â Gr• p Uwch-flaenoriaeth y CERT ac sydd â deiliadaeth ar gartref preifat?

32. Rydyn ni'n cynnig gofyn am gytundeb gwirfoddol gyda'r cwmnïau sydd â rhwymedigaeth o dan yr ECO o ran sut maen nhw'n ymrwymo i ddilyn atgyfeiriadau. Oes gennych chi awgrymiadau ar yr hyn y dylai'r ymrwymiad hwn ei gynnwys?

33. Oes gennych chi dystiolaeth neu farn i'w chynnig ynghylch a yw manteision yr ECO yn ei grynswth, neu fanteision y rhwymedigaeth arbed carbon ynddo, yn debyg neu'n annhebyg o gael eu dosbarthu'n deg i bob gr• p incwm? Os ydych, ydych chi'n credu bod angen ymyrryd ar ffurf rheoleiddio er mwyn sicrhau patrwm cyflenwi tecach ac, yn benodol, oes gennych chi sylwadau ar effeithiolrwydd tebygol gosod 'amddiffyniad dosbarthu' fel modd i gyflawni hyn?

#### **Pennod 6: Cydsynio, datgelu a chydabod**

34. Ydych chi'n credu bod y fframwaith ar gyfer cydsynio i daliad y Fargen Werdd a'r mesurau yn rhoi amddiffyniad priodol i'r partïon?

35. Beth yw'r ffordd orau i dynnu sylw'r sawl a fydd yn talu'r biliau yn y dyfodol at eiriad y gydnabyddiaeth?

36. Bydd fydd angen i'r proffesiynau sy'n gweithio ym maes eiddo ei wneud i helpu i gyflawni'r rhwymedigaethau yngl•n â datgelu a chydabod yn effeithiol? Os bydd y proffesiynau eiddo'n ysgwyddo dyletswydd i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn ar ran perchnogion eiddo, a ddylen nhw wynebu'r un canlyniadau â'r perchnogion, os byddan nhw'n methu gwneud hyn?

37. Oes yna sefyllfa arall lle y dylai fod yn ofynnol datgelu a chydabod ond a allai syrthio y tu allan i'r fframwaith arfaethedig?

38. Ydych chi'n credu bod 30 diwrnod ar ôl cael y bil trydan cyntaf yn derfyn amser priodol i rywun gael dadlau yn erbyn datgelu'r Fargen Werdd?

39. Ydych chi'n cytuno ag ymagwedd y Llywodraeth at ganiatáu i ddarparwyr y Fargen Werdd fynnu taliadau cynnar o dan rai amgylchiadau?

### **Pennod 7: Gosod**

40. Oes yna safonau mewn cynlluniau a ategir ac a achredir gan y llywodraeth ar waith ar hyn o bryd (yn ychwanegol at y Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu a Gas Safe), y gellid barnu eu bod eisoes yn bodloni safon newydd y Fargen Werdd?

41. Hyd yn hyn, nid yw'n glir beth fydd y gofynion o ran achredu'r Fargen Werdd a'r ECO na sut y byddan nhw'n effeithio ar y ffyrniau sydd eisoes yn y farchnad. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud i ddeall a mesur natur yr effaith ar y rhain, yn enwedig yn achos y ffyrniau hynny sy'n fusnesau meicro. Mae croeso i sylwadau gan osodwyr presennol y CERT am oblygiadau newidiadau yn yr achrediad.

### **Pennod 8: Casglu taliadau**

42. Ydych chi'n cytuno â'n trothwyon arfaethedig ar ddyledion? Os nad ydych, awgrymwch drothwyon eraill ynghyd â thystiolaeth ategol briodol.

43. Ydych chi'n credu y dylai fod gan gyflenwyr trydan yn ogystal â darparwyr y Fargen Werdd yr hawl i atal cwsmeriaid rhag codi trefniant cyllid Bargaen Werdd os caiff y trothwyon hyn eu croesi? Rhowch resymau dros eich ateb.

44. Ydych chi'n credu bod angen seilwaith ychwanegol i'w gwneud yn haws i daliadau gael eu trosglwyddo?

45. Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod arfaethedig o 72 awr ar gyfer trosglwyddo taliadau? Os nad ydych, awgrymwch ddewis arall ynghyd â thystiolaeth ategol briodol.

46. Yn ystod y cyfnod hwn o 72 awr, a ddylai'r cyflenwr trydan gadw balans yn y cyfrif sy'n gyfwerth o leiaf â chyfanswm y taliadau Bargaen Werdd sydd ganddo?

47. Oes gennych chi awgrym arall ynghylch lleihau'r baich ar gyflenwyr bach na fyddai'n arwain at ostyngiad posibl yn nifer y cyflenwyr trydan a fyddai ar gael i gwsmeriaid y Fargen Werdd?

48. Ydych chi'n cytuno â'r trothwy arfaethedig ynghylch caniatáu i gyflenwyr bach ymuno â'r cynllun? Os nad ydych, awgrymwch drothwy gwahanol ynghyd â thystiolaeth ategol.

49. Ydych chi'n cytuno â lefel arfaethedig y ffi weinyddu flynyddol? Os nad ydych, rhowch y rhesymau dros eich ateb ac, os yw'n berthnasol, rhowch dystiolaeth ychwanegol o'r effaith debygol ar gostau.

50. Ydych chi'n cytuno a chadw'r terfyn presennol o £200 o ôl-ddyledion (gan gynnwys ôl-ddyledion ad-daliadau'r Fargen Werdd) yn achos cwsmeriaid sy'n talu ymlaen llaw ac sydd â chynllun Bargaen Werdd? Os nad ydych, awgrymwch derfyn arall ynghyd â thystiolaeth ategol briodol.

### **Pennod 9: Cyflawni'r Fargen Werdd a'r ECO**

51. Ydych chi'n cytuno y gallai pennu cwotâu caeth mewn rheoliadau ynglŷn â phartneru â mathau/niferoedd penodol o asiantau cyflenwi fod yn ormod o faich, ac y gallai datblygu model brocera fod yn ffordd fwy effeithiol i sicrhau'r canlyniad a ddymunir?

52. Ydych chi'n cytuno ei bod yn ddymunol i gyflenwyr ynni orfod cyflawni rhywfaint neu'r cyfan o'r rhwymedigaeth (carbon) dryw wario arian i hybu mesurau drwy'r sefydliadau hynny sy'n gallu cyflawni'r opsiynau mwyaf cost-effeithiol?

53. Ydych chi'n cytuno y dylen ni ofyn am ymroddiad cadarn gan gyflenwyr yr ECO y byddan nhw'n defnyddio gwasanaeth brocera ar gyfer canran bendant ac arwyddocaol (e.e. 50%) o'u rhwymedigaeth? Os ydych, ar ba lefel y dylai hyn fod, yn eich barn chi?

54. Oes gennych chi ragor o sylwadau am ddyluniad manwl mecanwaith brocera, neu unrhyw fecanwaith arall sy'n sicrhau bod pethau'n cael eu cyflawni yn y modd mwyaf cost-effeithiol?

### **Pennod 10: Diogelu defnyddwyr**

55. Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan yr Ombwdsmon Ynni rôl mewn helpu cwsmeriaid i sicrhau iawn yn y Fargen Werdd? Os ydych, pa bwerau eraill y bydd ar yr Ombwdsmon Ynni eu hangen i ymchwilio i weld a ydy darparwyr y Fargen Werdd a deiliaid tai yn cydymffurfio. Os nad ydych, esboniwch pam.

### **Pennod 11: Gosod yr ECO a'r mesuriadau targed**

56. Ydych chi'n cytuno mai targedau o arbed 0.52 miliwn o dunelli o CO<sub>2</sub> y flwyddyn, a gostyngiad o £3.4 biliwn yng nghostau syniannol y gwresogi dros oes y mesurau erbyn 2015 yw'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau lefelau uchel o gyflawni'r cynlluniau a lleihau'r costau a allai gael eu trosglwyddo ymlaen i'r defnyddwyr?

57. Ydych chi'n cytuno â'r amcangyfrif o gost yr ECO ar y raddfa yma, sef £1.3bn y flwyddyn fel y'i nodwyd yn yr Asesiad Effaith? Oes gennych chi dystiolaeth ychwanegol am gostau a buddion y targedau arfaethedig i'w hystyried mewn rhagor o waith dadansoddi?

58. Gallai rhaniad yr ECO cyffredinol rhwng cwmnïau ynni gael ei seilio ar y gyfran o'r cyfrifon cwsmeriaid, neu ar y gyfran o gyfanswm y gwerthiannau. Oes gennych chi ddewis cyntaf o ran pa fesuriad a ddylai gael ei ddefnyddio, gan gymryd i ystyriaeth yr effaith posibl ar degwch y dosbarthu? Rhwch dystiolaeth dros eich barn.

59. Rydyn ni'n cynnig y dylai arbedion a gyfrifir drwy fethodoleg asesu'r Fargen Werdd a seilir ar yr SAP a ddylai gael eu defnyddio yn sail ar gyfer targedau a sgoriau'r ECO. Allwch chi rag-weld unrhyw effeithiau dymunol neu ddamweiniol y gallai'r ymagwedd yma arwain atyn nhw? Os gallwch, rhowch y manylion a'r dystiolaeth.

60. A ddylai targedau a sgoriau'r Rhwymedigaeth Carbon a/neu'r Rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy gael eu mynegi ar sail arbedion blynyddol y mesurau ynteu ar sail yr arbedion dros oes y mesur?

### **Pennod 12: Monitro a Chlориannu'r Fargen Werdd, a Gweinyddu'r ECO**

61. Oes yna wybodaeth arall y dylai'r Llywodraeth ei chasglu er mwyn caniatáu gwaith monitro, cloriannu ac adrodd effeithiol ar berfformiad y Fargen Werdd a'r ECO?

62. Ai DECC a ddylai fod yn gyfrifol am weinyddu'r ECO, gan drefnu'r swyddogaethau technegol yn allanol yn y sector preifat, neu ai Ofgem a ddylai'r weinyddu'r cynllun? Rhwch dystiolaeth i ategu'ch barn.

### **Sylwadau cyffredinol**

63. Yn ychwanegol at y cwestiynau penodol sy'n cael eu gofyn drwy'r ddogfen ymgynghori, oes gennych chi sylwadau eraill am unrhyw agwedd ar ein cynigion?

© Hawlfraint y Goron 2011  
Department of Energy & Climate Change  
3 Whitehall Place  
London SW1A 2HD  
[www.decc.gov.uk](http://www.decc.gov.uk)  
URN: 11D/886